

ECO'R WYDDFA

RHIF 314

MEDI 2004

PRIS 40c

Pastwn

Atodiad newydd
i bobol ifanc am ddim
yn y rhifyn hwn...

Siambar Newydd Selwyn!

MAE un o drigolion Bro'r Eco a cholofnydd Eco'r Wyddfa wedi ei ethol yn Archdderwydd newydd.

Y Prifardd Selwyn Griffith, sy'n byw ym Mhenisarwaun ond yn wreiddiol o Fethel, fydd yn olynu'r Prif Lenor Robyn Léwis.

Bydd Mr Griffith yn arwain ei seremoni gyntaf yn Eisteddfod Eryri yn y Faenol, ger Bangor yn 2005, ar ôl i gyfnod Robyn Llŷn ddod i ben yn seremoni croesawu Eisteddfod Abertawe y flwyddyn nesaf.

Roedd dau brifardd wedi ymgeisio am y swydd, Mr Griffith a'r Prifardd Gwynn ap Gwilym.

'Dwi ddim wedi sobri eto ers cael gwybod,' meddai Mr Griffith, ar ôl i'r cyhoeddiad gael ei wneud yng nghyfarfod Gorsedd y Beirdd ar ddydd Gwener olaf Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd.

'Dwi'n siŵr y caf funud o dawelwch ac amser i ystyried y penderfyniad. Yn sicr, mae'n brofiad arbennig iawn ac yn anrhydedd arbennig. Wnes i ddim breuddwydio erioed y byddwn rhyw ddydd yn Archdderwydd.'



I'r Archdderwydd Etholedig

'Leni, bardd cerddi ysblennydd i blant
Biau'i le'n Archdderwydd, -
Nid â ffon sgwlyn ond ffydd
Gŵr hoffus - Selwyn Griffith.

Y CYN-ARCHDDERWYDD EMRYS DEUDRAETH

Mr Griffith enillodd y Goron yn Eisteddfod Dyffryn Conwy yn 1989.

'Roeddwn wedi breuddwydio cael ennill y Goron ond erioed wedi meddwl y byddwn i'n Archdderwydd,' meddai.

'Dwi'n edrych ymlaen at yr Eisteddfod gynta i mi fel Archdderwydd, yn Eryri, ar fy libart fy hun i bob pwrpas. Mae fel tîm ffwtbol yn chwarae adre ac felly mae'n gysur mawr.'

Mae Mr Griffith yn ysgrifennu am ei apwyntiad yn ei golofn fisol Siamb'r Selwyn yn y rhifyn hwn o'r Eco ar dudalen 8.

Codi Stêm:

Y cyflwynydd Fred Dibnah yn Llanbêr
(Trowch i tudalen 3)



Y 'Llwyd o'r Bryn' i Fethel



Llongyfarchiadau i Carwyn John Morris, Perthi, Bethel, ar ddod yn fuddugol yn y brif gystadleuaeth i lefarwyr yn Eisteddfod Casnewydd. Mae Carwyn yn enedigol o Fethel ac yn gweithio i gwmni teledu Tonfedd/ Eryri yn y Felinheli.

Hon oedd ei ymgais gyntaf ar y 'Llwyd' - dipyn o gamp felly. Fe glywn fwy am Carwyn yn y dyfodol, rwy'n siŵr!

ECO'R WYDDFA

**RHIF 314
MEDI 2004**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prj.wales.com

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MEDI 20

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MEDI 30

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Medi	20 Medi	30 Medi	Penisarwaun	Ann Evans	872407

Annwyl Olygydd,
Hoffwn, ar ran Cymdeithas
Cymru-Ariannin, gyfleu ein
diolch i'r rhai a gyfrannodd
tuag at docynnau ar gyfer
hedfan myfyrwyr o'r Wladfa i
Gymru ar gyfer cwrs Cymraeg
Llanbedr Pont Steffan.
Dymunwn yn dda i Santiago
Fariña, Margarita Green, Mil
Junyent, Dolly Miguens,
Patricia Perrozzi a Bibiana Silva
Portugés sydd wedi dechrau ar
eu cwrs wyth wythnos.
Yn gywir

CERIS GRUFFUDD
(Ysgrifennydd Cymdeithas
Cymru-Ariannin)

Annwyl Olygydd
Mae pawb ohonom sydd yn byw
yn ardaloedd y chwareli llechi
yn gyfarwydd efo'r cloddiau
sydd wedi eu codi trwy
ddefnyddio pileri llechi. Mae
ganddynt rhyw harddwch syml,
ac wrth reswm maent hefyd yn
enghraifft o un o'r niferoedd o
bethau y bu'n cyneidiau yn eu
gwneud efo llechfaen.

Rydym yn chwilio am gyflenwad
o bileri llechi, er mwyn codi
clawdd yma yn Amgueddfa
Lechi Cymru. Oes un o'ch
darllenwyr tybed efo rhai nad
ydynt bellach yn eu defnyddio,
neu sydd wedi eu codi? Byddem
yn ddiolchgar iawn am unrhyw
gynigion o gymorth, neu
wybodaeth. Gallwch gysylltu
trwy alw yn yr Amgueddfa, trwy
sôn wrth un o'n staff, neu trwy
ffônio (01286) 870630.

Yn gywir

Dafydd Roberts

Ceidwad

Amgueddfa Lechi Cymru

Annwyl Olygydd
Yn dilyn taith feics lwyddiannus
y llynedd, pan gasglwyd dros
£1,000 tuag at yr Ambiwylans
Awyr, bydd Alun Ffred Jones
AC a minnau'n cynnal taith
gerdded nodedig i fyny'r Eifl
yng nghwmni'r naturiaethwr a'r
cerddwr o fri, Iolo Williams.
Cynhelir y daith ar 18 Medi ac
eleni byddwn yn codi arian tuag
at Meningitis Cymru, elusen
hynod bwysig sy'n ymladd llid
yr ymennydd trwy godi
ymwybyddiaeth a rhannu
gwybodaeth am yr afiechyd
peryglus hwn.

Mae croeso i unrhyw un
ymuno â ni, boed ffit neu beidio!
I gael mwy o wybodaeth neu
ffurflen noddi cysyllter â'r
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y
Castell, Caernarfon. Ffôn
(01286) 672076.

Yn gywir iawn

Hywel Williams

Aelod Seneddol Caernarfon

Annwyl Olygydd
Trwy gyfrwng eich papur fe
hoffem ni fanteisio ar y cyfle i
ddiolch i bawb o'r ardal a
gyfrannodd tuag at lwyddiant y
Croeso yng ngŵyl cyhoeddi
Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau
yng Nghaernarfon yn
ddiweddar. Roedd yr
addewidion o fara brith,
teisennau bach a mawr, sgons a
cacenni cri, yn hedfan o bob cwr
o'r dalgylch! Diolch hefyd i'r
merched a ddaeth draw i
ffreutur Ysgol Syr Hugh Owen i
baratoi'r byrddau ac i roi croeso
i aelodau'r orsedd - criw hapus a
di-lol.

Diolch yn fawr i bawb

Helen Gwyn, Cadeirydd
Pwyllgor Llety a Chroeso;
Alwena Watkins, Is Gadeirydd;
Alwena Lewis, Llywydd.

Annwyl Gyfeillion

Carwn ddiolch o galon i chi am
eich cefnogaeth a'ch hynawsedd
yn y gorffennol. Bwm yn
cynrychioli Clwt y Bont, Gallt y
Foel a Dinorwig ar Gyngor
Gwynedd ers rhai blynnyddoedd
bellach, ond oherwydd
newidiadau yn y ffiniau nid y fi
fydd yn cynrychioli'r ardal
wedi'r etholiad ym mis
Mehefin.

Felly, unwaith eto, diolch yn
fawr i chi oll am eich croeso bob
amser

Yn ddiffuant

Pat Larsen
Llygad yr Haul
Penisarwaun

Annwyl Olygydd
Eleni byddwn yn dathlu
canmlwyddiant geni un o
lenorion mwyaf Cymru -
Caradog Prichard. Ganed ef ym
Methesda ar 3 Tachwedd, 1904, a
bu farw yn Llundain ar 25
Chwefror 1980. Gwahoddwyd fi i
lunio cyfrol amdano yn y gyfres
'Bro a Bywyd' ac, ar hyn o bryd,
rydwi wrthi'n casglu
deunyddiau ar gyfer y
cyhoeddiad hwnnw. Fel y gwyr y
sawl sy'n gyfarwydd â'r gyfres,
dull llun a chapsiwn a
ddefnyddir i bortreadu hanes
ardal a bywyd y gwrthrych.
Caernarfon, Llanrwst,
Aberystwyth, Caerdydd a
Llundain yw'r llefydd allweddol
o safbwynt lle bu Caradog
Prichard yn gweithio ond bu
ganddo gysylltiadau â phobol a
digwyddiadau mewn nifer o
fannau eraill, wrth gwrs. Rwy'n
awyddus iawn i allu cynnwys
lluniau cynifer ag y bo modd o'r
bobol, y llefydd a'r adeiladau a
grybwyllir yn ei hunangofiant,
Afal Drwg Adda.

Byddwn yn hynod falch o
glywed oddi wrth unrhyw un
o'ch darllenwyr a allai fod â llun
neu luniau neu fanylion
diddorol yn eu meddiant y gellid
ystyried eu cynnwys yn y gyfrol.
Gellir cysylltu efo fi ar (01248)
670517 neu 07979 50 66 80, neu
drwy e-bost at
johnelwyn@btinternet. com,
neu drwy ysgrifennu ataf i Bryn
Ogwen, Bethel, Caernarfon,
Gwynedd LL55 3AA.

Yn gywir

J. Elwyn Hughes



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONTWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynnyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



**(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)**



Fred Dibnah a Haf o Hwyl yn Amgueddfa Lechi Cymru

Ymweliad gan Fred!

Yn ystod mis Awst eleni, galwodd cymeriad enwog i fewn i Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis, sef Fred Dibnah.

Roedd y 'steeplejack' enwog ar daith i wneud rhaglen deledu newydd o'r enw *MADE IN BRITAIN*.

Roedd yn trafelio ar injian dracsiwn Aveling and Paster yn dyddio o 1918, ac yn sicr fe ddenodd sylw yn ystod ei ymweliad.

'Roedd pawb, yn cynnwys staff ac ymwelwyr, wrth eu boddau yn

gweld Mr Dibnah yma,' dywedodd Julie Williams, Swyddog Marchnata. 'Mae o wedi bod i'r Amgueddfa sawl tro o'r blaen ac wrth ei fodd yma. Yn y gorffennol mae wedi rhoi tro llaw ar y hollti a naddu ond y tro hwn roedd yn cerdded o gwmpas y gweithdai yn edrych ar y gwahanol beiriannau sydd gyno ni ar y safle.'

Bydd y rhaglen *MADE IN BRITAIN*, allan yn y flwyddyn newydd.

Am ragor o fanylion cysylltwch a Julie Williams ar 01286 870630



Dadorchuddio Cerflun o Flodeuwedd yng Nghwm Derwen, Parc Gwledig Padarn

Yn ystod y mis hwn, cafodd cerflun unigryw, 6 throedfedd 6 modfedd o uchder, sy'n portreadu Blodeuwedd, cymeriad o'r Mabinogion, ei ddadorchuddio mewn lle cyn prydferth uwchben Llanberis.

Gwnaed y cerflun o ddefnyddiau lleol sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, yn cynnwys rhaffau, sy'n ffurfio'r wisg a'r gwallt, a darnau o lechi lleol a glymwyd ynghyd â gwifren gopor i wneud y fantell.

Cynhyrchwyd y cerflun gan grŵp o bobl ifanc lleol a oedd yn dilyn cwrs yng Nghanolfan Hyfforddi Gwynedd yng Nghacrnarfon. Bu'r grŵp, a oedd yn gweithio ar y prosiect fel rhan o'u hyfforddiant cyn dilyn cwrs NVQ, yn treulio diwrnod yr wythnos ar y cerflun, a chymerwyd 17 wythnos i'w gwblhau.

'Roedd y myfyrwyr yn awyddus i gynhyrchu cerflun ffigurol, a chawsant y syniad o bortreadu cymeriad o'r Mabinogion, a fyddai'n adlewyrchu diwylliant Cymru,' meddai Peter Moore o Fenter Sgiliau y Dyffrynnoedd Llechi, Bangor, rheolwr y prosiect.

'Bu'r tywydd braf yn gymorth mawr pan oedd y grŵp yn gweithio yn y goedwig, ac roedd y

gefnogaeth a gafwyd gan bawb a fu ynghlwm wrth y prosiect yn ychwanegu at y pleser o weithio ar y cerflun. Mae'r myfyrwyr hwythau wedi dysgu sgiliau y byddant yn eu defnyddio yn ystod cam nesaf eu hyfforddiant,' ychwanegodd.

Roedd y prosiect yn fenter ar y cyd rhwng sawl sefydliad lleol. Darparwyd y safle ar gyfer y cerflun ym mharc natur Cwm Derwen gan Fenter Fachwen, yr asiantaeth fenter leol, a rhoddodd Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis 160 o lechi ar gyfer y prosiect.

Ni fyddai stori Blodeuwedd yn gyflawn wrth gwrs heb y dylluan a welir yn clwydo ar goedden gerllaw. Mae hithau hefyd yn gynnwys gwaith y myfyrwyr.

Dadorchuddiwyd y cerflun Ddydd Mawrth yr 20fed o Orffennaf, am 11 y bore yng Nghae Derwen ym Mharc Padarn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â: Peter Moore, Rheolwr y Prosiect: 01492 582 113; Simon Higgins, Menter Fachwen: 01286 872014; Jeff Roberts, Canolfan Hyfforddi Gwynedd: 01286 676477; Julie Williams, Swyddog Marchnata, Amgueddfa Lechi Cymru: 01286 870 630.



Hwyl Haf Crefftus



Cynhaliwyd nifer o weithgareddau i blant yn yr amgueddfa dros yr haf hefyd - o addurno llechi a gweld sut oedd gwneud y golch 100 mlynedd yn ôl, i wneud peli molchi sebon a bathodynau.

'Er cin bod wedi cynnal gweithgareddau yma yn ystod yr haf o'r blaen, dyma yw'r rhaglen brysraf erioed,' meddai Julie Williams, Swyddog Marchnata yr Amgueddfa. 'Rydym yn mawr obeithio y bydd y plant yn mwynhau creu campweithiau gyda llechfaen a gwneud eu momentos eu hunain i fynd adref gyda nhw.'

Jessica ac Amanda Williams
o Lanberis.



TAFARN BRYNGWNA Caeathro

Croeso mawr i bawb i'r 'Bryngwna' yng nghanol pentref Caeathro, lle ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentref, yng nghwmni Gareth a Steffan Bowen, y tafarnwyr newydd.

Cinio dydd Sul a byrbrydau ar gael

Ffoniwch (01286) 674562 i gadw bwrdd neu archebu ymlaen llaw



Yn cefnogi grŵpau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Cysylltwch â Mantell Gwynedd am help:

- i gychwyn prosiect
- i redeg mudiad
- i geisio am grant
- i gael hyfforddiant
- i wirfoddoli

Ffoniwch: 01286 672626
neu 01341 422575

ymholiadau@mantellgwynedd.com
www.mantellgwynedd.com

Rhif Elusen 1068851
Rhif Cwmni 3420271



Oherwydd camgymeriad hefo'r dyddiadau a'r ffaith nad oedd Eco'r Wyddfa yn ystod Gorffennaf, cyhoeddir tri adroddiad o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen y mis hwn.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 1 Mehefin yng Nghanol Penisa'rwaun.

Llywyddwyd y cyfarfod gan yr is-gadeirydd, y Cyngorydd Gwilym Williams.

Offrymwyd gweddi gan y Cyngorydd Richard Llwyd Jones gan gyfeirio at golli'r cyn gynghorydd Alun Wyn Evans.

Etholiad 2004

Cyflwynwyd Datganiad Gwynedd bod y Cyngorwyr canlynol wedi eu hethol ar y Cyngor Cymuned yn ddiwrthwynebiad:- Hugh P. Hughes, Richard Ll. Jones, Gwilym Williams, R. Len Jones, Dafydd Morris, Phillip Jones, Phyllis Ellis, Aled Green, R. Hefin Williams.

Derbyniwyd llythyrau Dafydd Williams, Bethel a Gwynfor James, Deiniolen a datganiad llafar Sara Wood, Elwyn Jones ac Idris Morris eu bod yn ymddiswyddo. Llwyddwyd i berswadio Mr Idris Morris i barhau yn ei sedd. Bydd angen cyfethol Cyngorwyr ar gyfer y wardiau canlynol: Deiniolen x 2, Bethel, Rhiwlas a Brynrefail.

Cofnodion Cyfarfod y 4ydd o Fai. Derbyniwyd fel cofnodion cywir.

Materion o'r cofnodion:

Atebion Gwynedd -

Eu bod am fesur cyflymder ar Allt Tan y Coed, Penisa'rwaun a bod Winllan y tu allan i ffin y 30 m.y.a.

Defnyddir cerbyd arbennig i hel gwastraff papur yn Ninorwig rhag iddo chwythu o gwmpas eto.

Pont Fawr, Deiniolen - y gwyn am or-dyfiant wedi ei hanfon i'r Adran Tai. Ychwanegodd y Cyngorydd Len Jones ei fod wedi ymholi ymhellach ac nid oes sicrwydd pwy sy'n gyfrifol. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd eto.

Tŷ Elidir, Deiniolen - caead carffosiaeth yw'r un diffygiol, gwnaed atgyweiriad dros dro gan yr Adran Ffyrdd ac mae'r gwyn wedi ei hanfon i'r Bwrdd Dŵr.

Gwlliau a godwyd ar hyd Stryd Fawr, Deiniolen, rhyw nos Sadwrn, nid oes modd eu sicrhau.

Lôn Fron, Deiniolen. Nid oes modd gosod arwydd i rwystro cerbydau mawrion deithio ar hyd y ffordd yma Ysgubo'r ffordd, Dinorwig. Addewid y gwneir hyn ar y 10ed o Fehefin ac wedyn bob 16 wythnos.

Biniau Baw Cŵn. Derbyniwyd lleoliadau ar gyfer Deiniolen gan y Cyngorydd Len Jones.

Arosfan bws, Bethel. Penderfynwyd ei glanhau unwaith. Derbyniwyd pris *Site Water Services*, Bethesda, am ei glanhau a golchu'r paent i ffwrdd.

Gohebiaethau Eraill

Comisiwn Ffiniau i Gymru. Cyflwynwyd ei adroddiad bod sylwadau'r Cyngor, ynglŷn â ffiniau'r etholaethau, wedi eu cofnodi.

Menter Iaith Gwynedd. Cyflwynwyd cynnig Sera Catrin Jones i ddod i gyfarfod y Cyngor i gynghori ar ddefnydd o'r iaith. Penderfynwyd nad oedd angen hynny gan bod y Cyngor yn gweithredu yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg yn barod.

Swyddfa'r Cynulliad Cenedlaethol. Cyhoeddwyd agor Canolfan Ymwelwyr y Cynulliad yn Princes Drive, Bae Colwyn.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Elwyn Jones at ddau fater yn Rhiwlas:

Ceir yn dal i osgoi'r ramp gan greu perygl - llythyr eto i Wynedd.

Mae'r tai Cyngor sy'n cael eu hatgyweirio wedi bod heb do am fisoedd, mae Mainc y Cyngor oddi fewn i ffens y gwaith ac o'r golwg mewn tyfiant gwair - llythyr i Wynedd yn awgrymu ail leoli'r fainc dros dro.

Cyfarfodydd Cyhoeddus Eisteddfod Eryri 2005

Dywedodd y Cyngorydd Richard Ll. Jones bod dau gyfarfod wedi eu cynnal ym Methel a bod gweithgareddau codi arian wedi eu trefnu. Dywedodd y Cyngorydd Phyllis Ellis bod gweithgareddau hefyd ar y gweill ym Mhenisa'rwaun. Eglurodd y Cyngorydd Len Jones ei fod yn cyfarfod y Cyngorwyr Gwilym Williams a Phyllis Jones nos Iau i gychwyn trefniadau Deiniolen, Clwt y Bont a Dinorwig.

Disgwylir ateb Swyddfa'r Eisteddfod i gynnal cyfarfod yn Rhiwlas unrhyw nos Fercher neu Wener. Y Clerc i gysylltu ar ran y Cyngorydd Hefin Williams. Deallir bod Swyddfa'r Eisteddfod am benodi trefnydd dros Frynrefail.

Cynllunio

Cais Cynllunio Helen Villa, Clwt y Bont - Sylw a wnaed gan y Cyngorydd Gwilym Williams bod camddealltwriaeth ynglŷn â dyddiad rhybydd y cais. Gan bod yr Adran Gynllunio mor hunan gyfiawn yn eu hateb i'r cyfarfod diwethaf ysgrifennodd y Clerc

atynt yn dwyn sylw at bedwar cais lle roedd y dyddiadau wedi eu newid mewn beiro o'r 10 i'r 24ain o Fawrth.

Darllenwyd ymddiheuriad Gwynedd a chyfaddefiad nad oedd y dyddiadau wedi eu newid ar eu cofnodion a mai dim ond perchennog y beiro oedd yn gwybod am y newid. Cafwyd cadarnhad na ddigwydd hyn eto.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Adeiladu tŷ: 12 Tan y cae, Bethel.

Estyniad i Dŷ Capel, Penisa'rwaun.

Atgyfannu adeilad rhestredig i annedd: Glasgoed Hall, Llanrug.

Llwybrau

Derbyniwyd adroddiad oddi wrth Mrs Ann Lloyd, Tai Fictoria, Deiniolen ar 21ain o lwybrau'r ardal. Penderfynwyd diolch i Mrs Lloyd a gofyn i Wynedd wneud yr atgyweirio angenrheidiol fel rhaglen waith o fewn amser rhesymol.

Darllenwyd ateb Gwynedd i lythyr y Cyngor, dyddiedig y 10ed o Fehefin 2003, ynglŷn â dar-gyfeirio llwybrau cyhoeddus.

Gwrthodwyd y cyhuddiad bod y Cyngor yma yn ystyried cerddwyr ar draul tîrfeiddianwyr.

Adroddiadau

Bydd y Grŵp Cymunedol yn cyfarfod nos Lun, 7ed o Fehefin - gwahodd Mr Gareth Roberts i fod yn bresennol.

Swyddfa'r Post, Deiniolen. Adroddodd y Cyngorydd Len Jones bod y post yn ail agor ar ôl bod ynghau am dair wythnos a bod trafodaethau yn digwydd ynglŷn â lleoliad parhaol a rheolwr y swyddfa.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf - 22ain o Fehefin

* * *

Cynhaliawyd Cyfarfod blynyddol y Cyngor nos Fawrth, 22 Mehefin.

Offrymwyd y weddi gan y Cyngorydd Richard Llwyd Jones ac yn absenoldeb y Cadeirydd gofynnwyd i Richard lywyddu'r cyfarfod.

Penodi Swyddogion 2004/05

Penodwyd yr Is-gadeirydd presennol, y Cyngorydd Gwilym Williams, yn gadeirydd a'r Cyngorydd R. Hefin Williams yn Is-gadeirydd.

Cyf-ethol Cyngorwyr

Cyflwynwyd llythyr Mrs Pat Jones, Cae Coch Farm, Brynrefail, yn amlygu ei diddordeb yn sedd Brynrefail. Derbyniwyd Mrs Jones yn gynghorydd dros ward Brynrefail.

Yr un modd derbyniwyd llythyr Miss Bronwen Jones, 3 Dinorwig Terrace, Clwt y Bont, yn ceisio am un o seddau Deiniolen. Derbyniwyd Miss Jones yn gynghorydd dros Ward Deiniolen.

Cafwyd pleidlais unfrydol dros

y ddwy aelod newydd.

Bydd eto angen un aelod yn Neiniolen, un ym Methel ac un yn Rhiwlas i wneud cyngor llawn o bymtheg Cyngorydd.

Derbyniwyd Cofnodion y 1af o Fehefin 2004 fel rhai cywir

Materion o'r cofnodion

Cyflwynwyd ateb Miss Catrin Jones, Menter Iaith Gwynedd yn egluro y gallai helpu trwy gyflwyno grantiau ar gyfer sefydliadau a busnesau o fewn y gymuned. Penderfynwyd ei gwahodd i gyfarfod nesaf y Grŵp Cymunedol.

Cyfeiriodd Dafydd Morris at 5.3 - **Pont Fawr, Deiniolen**, gan ddweud y dylai'r gweithwyr ffordd dorri'r tyfiant sy'n dod i'r lôn lle bynnag bo'i wraidd.

5.7 **Dinorwig**. Ni fu'r peiriant glanhau'r ffordd yno ar y 10ed o Fehefin, ni fydd ymweliad bob 16 wythnos yn ddigon. Gofyn i Wynedd pam cyn lleied o ofal o Ddinorwig gan bod y trgolion yno yn talu trethi fel pawb arall.

Torri Gwair Ochr Ffordd. Roedd y tractor a aeth ar hyd lôn Bwlch Ucha mor fawr roedd ei olwynion yn cyffwrth y ddwy ochr, roedd yn amhosib iddo roi'r boom i lawr er mwyn torri gwair.

Awgrymwyd gofyn i Wynedd pam bod cymaint llai o weithwyr ffordd nag a fu? Mae llawer iawn o 4x4 gan yr adran ac amryw o swyddogion newydd.

Gorchymyn Cyngor Gwynedd. Rhoddir llinellau melyn 'dim parcio' ar waelod Porth y Gogledd, Deiniolen.

Gosodir arwyddion 30 m.y.a rhwng Mynydd Llandygai a Dinorwig.

Gohebiaethau eraill

Cais Capel Bosra,

Penisa'rwaun am gymorth ariannol at gostau atgyweirio'r adeilad a chydymffurfio a rheolau Iechyd a Diogelwch. Amlygwyd y pwysigrwydd o barhad yr unig Gapel sy'n dal ar agor yn y pentref a hefyd y tebygolrwydd o dderbyn ceisiadau cyffelyb oddi wrth Gapeli eraill y gymuned. Penderfynwyd gofyn iddynt am gais ffurfiol gan gynnwys eu mantolen ariannol i'w hystyried ymhlith ceisiadau eraill yn yr Hydref. Awgrymwyd hefyd efallai y dylid ailedrych ar y grantiau a roddir yn flynyddol i'r un mudiadau.

Rhos Wian, Penisa'rwaun. Dywedodd Aled Green bod Ambiwllans mawr wedi methu, unwaith yn rhagor, fynd at ei dŷ i'w gludo i'r ysbyty. Penderfynwyd ysgrifennu at *Bwrdd Iechyd Gwynedd* i gwyno ac awgrymu defnyddio cerbyd llai ar gyfer ardaloedd o'r fath.

Cynllun Unedol Gwynedd

Darlennodd y Clerc sylwadau blaenorol y Cyngor a gyflwynwyd i Wynedd.

Cadarnhawyd danfon yr un sylwadau eto gan ychwanegu: Cefnogi tai i bobl lleol; Neilltuo plotiau i bobl lleol adeiladu arnynt; Paratoi ar gyfer diwydiannau bychain.

Materion Ychwanegol

Camfa fawr, Lôn Garet. Dywedodd Phyllip Jones nad oes arwydd 'Dim Parcio' yno a bod ceir yn methu troi yn ôl - llythyr i Wynedd.

Maes Eilian, Dinorwig. Adroddodd Dafydd Morris ar y ffordd y mae polion BT wedi cael eu gosod o flaen y tai. Fe'u symudwyd o'r llain gwyrdd i'r lôn ond maent allan dros ddwy droedfedd o'r wal, yn rhwystr yn y lôn. - llythyr i Adran Prifffyrdd Gwynedd.

Cynllunio

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Dymchwel ac ail-adeiladu tŷ: Gilfach, Bethel.

Atgyfannu adeilad rhestredig: Glasgoed Hall.

Tystysgrif defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon: Dryll, Deiniolen.

Estyniad: Ty'n y Mynydd, Dinorwig.

Estyniad - Y Goeden Eiryn, Rhiwlas

Ceisiadau a wrthodwyd gan Wynedd:

Porth Newydd: Tan y Bryn, Clwt y Bont.

Addasu Stiwdio Potar: Bron y Foel, Dinorwig

Llwybrau

Ty'n 'Rardd. Dywedodd Mrs Larsen bod y twll mawr yn dal heb ei lenwi - llythyr i Wynedd.

Rhiwlas. Gofynnodd Hefin Williams beth yw'r sefyllfa ynglŷn â thorri gwair. Eglurodd y clerc nad oedd wedi derbyn pris oddi wrth Mr Arfon Jones. Rhwir wythnos iddo ateb cyn hysbysebu'r gwaith.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf - 6ed o Orffennaf.

* * *

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 6 Gorffennaf yng Nghanolfan Penisa'rwaun.

Llywyddwyd y Cyfarfod gan y Cadeirydd, Y Cyngorydd Gwilym Williams a dechreuwyd trwy weddio.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r ddwy Gyngoryddes newydd sef Mrs Pat Jones (Bryn'refail) a Miss Bronwen Jones (Deiniolen).

Croesawodd hefyd gynrychiolwyr *Galliford Try Construction* i roi amlinelliad o'r gwaith a fwriedir ar ran Dŵr Cymru ym Methel. Eu prwpas oedd cyflwyno'r wybodaeth i'r Cyngor cyn ei fod yn ymddangos yn y Wasg. Mae'r gwaith trin gwastraff presennol, ym Mhenrhos, Bethel yn annigonol. Diddymir hwn gan osod pibell oddi yno i'r Felinheli. Gosodir y rhan fwyaf o'r bibell trwy gaeau gan

groesi'r ffordd osgoi ar hyd y bont. Bydd y gwelliant yma yn gyfrifol o ddyblu'r llif a ellir ei dderbyn gan osgoi gollwng dŵr i nentydd yn ystod stormydd. Gwneir y gwaith rhwng Medi a Rhagfyr 2004. Cafwyd cyfnod trafod a chwestiynu. Amlygwyd iddynt gan y Cyngorwyr Pat Larsen a Pat Jones bod y sefyllfa ym Mryn'refail yn waeth o lawer nag ym Methel gan ofyn a yw blaenoriaethau Dŵr Cymru yn gywir. Addawont ofyn i'r Bwrdd a oes modd prysuro gwelliant ym Mryn'refail. Diolchodd y Cadeirydd iddynt a gadawsant am 7.30.

Derbyniwyd Cofnodion yr 22ain o Fehefin fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion.

Atebion Cyngor Gwynedd, Adran Prifffyrdd:

Hump tawelu trafndiaeth Rhiwlas - gwneir y gwaith yn ystod y flwyddyn.

Penderfynwyd gofyn iddynt ei wneud cyn gynted a bo môdd.

Winllan - Perthi, Penisa'rwaun.

Symudir y garreg yn fuan er diogelwch. Mae'r caead llechen eisioes wedi ei adnewyddu.

Eglwys Llanddeiniolen. Mae gwaith ar y gwteri yma wedi ei gwblhau.

Gwnaeth y Cyngorydd Idris Morris sylw bod angen atgoffa Gwynedd o gyflwr y gwteri ger maes parcio Gors Bach - llythyr i Wynedd.

Llwybr 93, Ty'n 'Rardd, Penisa'rwaun. Danfonwyd y gŵyn ymlaen i Mr Peter Wight, Rhcolwr Cefn Gwlad. a Mynediad.

Pont Fawr / Rhydfadog, Deiniolen. Danfonwyd yr angen am dorri tyfiant ymlaen i'r Adran Tai - unwaith yn rhagor. Ystad Bro Rhiwen, Rhiwlas. Ateb Cyfadran Gofal, Gwynedd - Mae mwy o weithwyr yno erbyn hyn a'r gobaith yw cyflymu'r gwaith. Nid oedd lle i leoli'r fainc y tu allan i'r ffens diogelwch heb ei bod yn gyfrwng i blant ddringo dros y ffens. Sicrheir na ddifrodir y fainc ac adferir y llecyn gwyrdd ar ddiwedd y gwaith.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Pat Larsen at ateb blaenorol Gwynedd bod Winllan y tu allan i'r 30 m.y.a. Cefnogwyd eu cais am *hump* yn union y tu mewn i'r 30 gan bod plant yn croesi yno o'r cae chwarae.

Er y cwyno, dywedodd y Cyngorydd Dafydd Morris nad yw'r peiriant glanhau ffordd wedi bod yn Ninorwig eto. Trafodwyd y gwasanaeth yma ym mhentrefi eraill y Gymuned. Cyfeiriodd y Cyngorydd Hefin Williams at ddynes sy'n clirio sbwriel yn wirfoddol yn Rhiwlas, ac o'r herwydd efallai nad yw Gwynedd yn gweld yr angen. Cyfeiriodd y Cyngorydd Pat Jones at y sefyllfa ym Mryn'refail lle mae ceir wedi

parcio yn ei gwneud yn amhosib i beiriant lanhau'r ffordd.

Penderfynwyd gofyn i Wynedd am amserlen y peiriant glanhau i holl bentrefi'r gymuned ac a oes modd danfon gweithwyr llaw i lanhau lle mae ceir yn parcio.

Gohebiaethau eraill

Derbyniwyd ateb Rhidian Jones, Bwrdd yr Iaith, ynglŷn ag hysbyseb Saesneg Euro DPC. Y mae wedi ysgrifennu at Jean Hatton o DPC i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg trwy sôn am y budd i ddelwedd gyhoeddus y cwmni ac o ran magu ewyllys da yn lleol. O'i brofiad mae cwmnïau ar y cyfan yn ymateb yn gadarnhaol i ddadl fel hyn.

Maes parcio Marchlyn Mawr. Dywedodd y Cyngorydd Phylip Jones bod Cymdeithas y Parc Cenedlaethol wedi ei glirio'r ond bod sbwriel yn cael ei gario yno eto.

Eisteddfod Eryri 2005

Derbyniwyd yr adroddiadau canlynol:

Rhiwlas - Mae pwyllgor wedi ei ffurfio a gwirfoddolwyr yn awyddus i weithredu.

Penisa'rwaun - Mae £2200 eisioes wedi eu codi.

Bethel - Amryw o weithgareddau yn digwydd.

Bryn'refail - Yr anhawster mwyaf ar hyn o bryd yw dim lle i gyfarfod ond mae gobaith y gellir cael ystafell yn adeilad 'Caban'.

Deiniolen / Dinorwig / Clwt y Bont - heb gynnal cyfarfod cyhoeddus hyd yn hyn.

Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd

Trafodwyd y cynllun yn helaeth ac ychwanegwyd y pwyntiau canlynol at gofnod yr 22ain o Fehefin:

Penisa'rwaun, angen i fyny i 15 o dai a'r gymuned/pentref i benderfynu ar eu lleoliad.

Bryn'refail, oes rhaid defnyddio'r lôn heibio Cae Coch fel ffin, pam na ellir bod yn fwy hyblyg. Mae angen lleol, ar hyn o bryd, i datblygu un cae uwchben y ffordd yma. (dangos ar y cynllun i Wynedd).

Pan adeiladwyd tai Trem Eilian gadawyd lle i ffordd rhwng rhif 6 a 7 er mwyn adeiladu ar gae 0013.

Mae Bethel a Llanrug wedi eu caniatu i dyfu'n ormodol.

Y Cyngor Cymuned i gael mwy o lais yn y cynllun unedol.

Cynllunio

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Estyniad: Ysbyty, Fachwen.

Estyniad: 11 Caeau Gleision, Rhiwlas.

Llwybrau

Dywedodd y Cyngorydd Hefin Williams nad yw'r gwair wedi ei dorri ar lwybrau Rhiwlas. Eglurodd y Clerc bod peiriant

Arfon Jones wedi torri ond ei fod wedi addo gwneud y gwaith o fewn ychydig ddyddiau. Os na fydd hyn wedi ei gyflawni, dywedodd Hefin Williams bod rhywun arall yn awyddus i wneud y gwaith. Penderfynwyd disgwyl tan ddiwedd yr wythnos.

Llwybr 27 Clwt y Bont. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwaith atgyweirio a wnaeth Gwynedd ym mis Rhagfyr 2003. Tybed a'i trwsio dros dro a wnaed. Mae'r twll yn y bont wedi ail-ymddangos.

Adroddiadau

Comisiwn Ffiniau Cymru.

Cynrychiolwyd y Cyngor yn Ymchwiliad y Comisiwn ym Mangor ar y 6ed o Orffennaf gan y Cyngorydd Miss Phyllis Ellis. Parhaodd y trafodaethau o 10.00 tan 3.30 y prynhawn. Amcan y Cyngorydd Ellis oedd pwysleisio barn y Cyngor a anfonwyd i'r Comisiwn ar y 30ain o Ionawr 2004 o ganlyniad i gyfarfod arbennig y Cyngor ar y 27ain o Ionawr. Gwrthwynebwyd y bwriad o symud y ffiniau etholiadol gan 19eg Cyngor, yn ogystal ag Aelod Caernarfon ac Aelod Conwy. Roedd 72 o wrthwynebiadau, yn cynnwys gwahanol fudiadau ac unigolion.

Ar wahân i'r ddadl ffiniau, adroddodd y Cyngorydd Ellis ei bod yn siomedig iawn ag agwedd y Comisiwn/ Ymchwiliad at yr Iaith Gymraeg.

Di-Gymracg oedd y Cadeirydd ac roedd y ddwy ysgrifenyddes, a oedd yn cofnodi'r cyfarfod, hefyd yn ddibynnol ar gyfiethiad trwy offer gwrando. Roedd rhai o'r cyflwyniadau mor dawel fel nad oedd y gynulleifa yn eu clywed, heb sôn am y cyfieithwyr. Golygai hyn nad oedd y Cadeirydd yn gallu cael cyfieithiad o bopeth oedd yn cael ei ddweud.

Penderfyniad unfrydol Cyngor Llanddeiniolen yw cwyno am hyn i'r Comisiwn ac anfon adroddiad i'r Cynulliad, yr Aelodau lleol ac i Fwrdd yr Iaith.

Mater ychwanegol

Cyfeiriodd y Cyngorydd Phylip Jones at y pwynt a wnaed ym mhresenoldeb *Galliford Try* ar ddechrau'r cyfarfod, sef y diffyg yn sustem trin carffosiaeth Bryn'refail. Amlygwyd y ffaith bod carffosiaeth yn gorlifo yn ystod glaw mawr i'r llyn, ac i'r lle mae plant yn chwarae. Hefyd bod plant yn methu mynd i'r ysgol yn ystod adegau gwlyb. Penderfynwyd anfon adroddiad i'r Asiant Amgylchedd.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf :- Nid yw'n arferol cyfarfod yn ystod Mis Awst a bydd y Clerc i ffwrdd ddechrau Medi. Penderfynwyd ar y 14eg o Fedi.

Miss Corona 1951

gan Y Gwalch

Y drydedd bennod

Erbyn i mi fynd i agor y drws, Epwy oedd yn sefyll yno ond y ddynas ei hun, yn llawn gofid ac ymddiheuriadau. Cipiais innau fy nhymer yn ei ôl, a llawn cystal hynny, oherwydd yn wobwr am fy ngwasanaeth roedd wedi dod â photel o rum imi - mae gan bawb ei bris.

Wedyn dyma hi'n edrych yn y modd mwyaf annwyl ar ei phlentyn a oedd yn cysgu ar fy ngwely. Fe'i gollyngodd ei hun yn yr union le lle roeddwn wedi bod yn gorwedd a rhoi cusan ysgafn ar foch y plentyn. Mi es innau i'r mymryn cegin honno oedd gen-i i roi'r tegell ar fynd, ond erbyn i mi ddod yn fy ôl efo panad yn fy llaw, roedd y ddwy ynghwsg.

Beth fedrwn-i wneud wedyn ond gadael iddyn nhw fod? Fedrwn-i ddim yn hawdd eu sgytian a'u taflu allan ar y ffasiwn awr. Cymerais lymaid fy hun a sefyll uwch eu pennau am funud, yn eu gwyllo - y fam a'r plentyn. Roedd eu pennau yn ymyl ei gilydd, a gwalltiau'r ddwy yn gymysg, ac oni bai am ambell fachlud haul neu godiad lleuad, dyna un o'r golygfeydd prydfarthaf a welais erioed. Roeddwn yn deisyfu i Titian neu ryw feistr cyffelyb fod yno gyda'i ganfas i'w hanfarwoli. Ond doedd yno neb.

Dyma fi'n gorwedd ar y seti yng nghornel bellaf y garafan. Pan ddeffrois yn y bore, roedd y ddwy yn dal i gysgu, ac mi es i fy ngwaith, a'u gadael yno i freuddwydio am enfys a chwmwl a chestyll yn yr haul. Efallai fy mod, erbyn hynny, mewn cariad â hwythau hefyd. Pwy a'wyr beth ydi teimladau dyn unig ymhell oddi cartra? Ond soniais i'r un gair wrth Sinffi Cooper. Mi fuasai hi wedi codi'r byd ar ei dalcen.

Ond doedd rhaid i neb ddweud dim wrth yr hen Yeoman. Pan es yno am sgwrs a mygyn ymhen diwrnod neu ddau, dyma fo'n dweud,

'Mi rwyti-wedi dechrau cadw gwely a brecwast.'

'Wel, dim ond yn achlysurol,' meddwn innau.

Ni chymerodd sylw o'm hateb. 'A pheth arall,' meddai 'mae'n rhaid i ti beidio teisio'r jipsan yna i'r gadlas chwaith. Mae-hi'n sgut am wneud tanau, honna. Mi allasai roi'r das wellt yna ar dân rhyw ddiwrnod. Lle byddi-di wedyn?

Nid yr hen Yeoman oedd yr unig un i'm rhybuddio i am y modd yr oeddwn yn cymdeithasu. Doedd Marjeri ddim yn fodlon ar fy nhrefniadau chwaith.

'Ni ddylai dyn fel chdi ymhel â rhyw bobl goman fel yna,' meddai rhyw ddiwrnod. 'A

pheth arall, beth petase'-nhw'n rhoi rhyw swyn arnat-ti. Fasa fo'n ddim o'r tro cynta.'

Tua'r adeg honno, dechreuodd bethau gymylu rhyngom. Yn sydyn, dechreuodd yr arian beidio. Roedd ganddi esgusodion sefydlog i egluro'r gwall. Doedd hi ddim wedi cael arian gan ei gŵr, neu ddim wedi cael cyfle i fynd i'r banc.

Ond dal i fynd yno wnes-i. Rhyw bnawn canfŷm y lle i gyd dan glo, ac roedd rhyw fan las o flaen y tŷ yn perthyn, yn ôl yr ysgrifen ar ei hochr, i ryw blymar.

Beth bynnag, ymlaen â'r gwaith yr es-i, ond pan ddaeth yn ganol y prynhawn, roedd yn chwith i mi fy mhanad. Ymhen rhyw ddwyawr, agorodd y drws, a daeth dyn y fan allan, dan gribo ei wallt. Y tu ôl iddo roedd y ddynas ei hun yn gwisgo dillad haul.

'O, angofiais dy fod ti'n dwad heddiw,' meddai hi. 'Roeddwn-i wedi cael byrst yn y llofft, ac mi fu'n rhaid i mi ffonio am y plymar. Gwna banad i ti dy hun. Rydw i'n mynd i nôl Heidi. Fyddai ddim yn hir.'

Roeddwn i, yn y twymiad hwnnw, heb weld Sinffi Cooper ers wythnosau. Gwyddwn fod y llwyth erbyn hyn yn gweithio yn nes i Pershore, ond roedd eu gwersyll yn yr un lle o hyd. Daeth chwaer Sinffi ataf ryw gyfnos gyda chennad, ac adroddodd hi fel person yn dweud ei baderau.

'Dos i ymyl y dderwen fawr yn Spetchley Woods nos yfory pan fydd y lleuad yn codi.'

A dyna wnes.

Roedd yna nefoedd o le yn Spetchley Wood ym mis Gorffennaf. Roedd yn union fel tasach yn mynd i mewn-i ryw gadeirlan fawr werdd, a seti'r côr yn llawn o golomennod, a phob mathau o adar cerdd yn canu'r 'Te Deum' drwy'r dydd yn ddigyfeiliant. Y noson honno, fodd bynnag, cefais un o'r profiadau mwyaf amheuthun a gefais mewn coedwig na mewn unman arall erioed.

Roedd y lleuad ar godi pan gyrhaeddais gyffiniau'r hen dderwen. O leuad haf, roedd yn llachar rhwng y dail. Doedd na siw na neb o gwmpas. Roedd bôn yr hen dderwen yn dywyll, ond wrth graffu gwelais ei bod yn braffach nag arfer. Roedd rhywun yn pwyso ar ei gwaelod.

'Sinffi,' sibrydais, 'chdi sydd yna?'

'Paid â dwad yn agos ata i, frawd,' meddai hi.

'Beth wyt-ti isio?' gofynnais.

'Dim ond dwad i weld y lleuad,' oedd ei hateb.

Roedd ei gwisg ffair amdani, yn llaes a thywyll. Pwysais innau fy nghefn ar goeden arall.

'Mae'r lleuad yn gry', wyddost-ti,' meddai hi wedyn ymhen dipyn. 'Mae-hi'n hael yn rhoi, ond mae'n gryfach yn tynnu, fel mae'n tynnu'r llanw.'

'Pwy ddeudodd hynny wrthat-ti?' gofynnais.

'Mae-hi'n rhoi sglein ar afalau Awst yn y nos, ac mae'n tynnu doluriau. Edrych arni, i ti gael gweld.'

Mae yna rai yn datgan ein bod ni'n byw yn barhaol o fewn tragwyddoldeb, ond ein bod ni, yn ein mantell ddaearol, yn gorfod mesur amser oherwydd gwawr a machlud a dyfodiad y tymhorau.

Clywais Sinffi yn dweud fel o bell, 'Mae-hi'n mynd i dy dynnu di ohono-i heno, frawd, fel na fydd yn rhaid i mi fynd â chdi efo mi ar hyd y byd. Mi fydd fy mywyd i'n rhydd fel yr oedd o. Ond cofia di am y ddwy seren.'

Rwy'n siŵr erbyn hyn fod Sinffi Cooper wedi atal y cloc y noson honno yng nghoed Spetchley, oherwydd pan dynnais fy llygaid oddi ar y lleuad, roedd-hi wedi diflannu. Wrth edrych wedyn ar y lleuad, sylwais fod ei hwyneb yn gwelwi, a'i bod wedi symud oriau ar draws y nen. Roedd côr y wig yn dechrau tiwnio, a'r awyr yn goleuo yn gyflym tros Bredon. Taniais fy mhibell a cherddais adref yn araf a hurt.

Yn ystod y diwrnodiau canlynol roeddwn yn meddwl yn siŵr fy mod wedi syrthio i ryw fath o wendid; y math o salwch y bu fy man yn ei ddarogan i mi droeon pan oeddwn yn aros yn rhy hir efo fy llyfrau. Cryfhaodd f'ofnau pan ddychwelodd fy hunllefau yn y nos.

I'w pharhau

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Croeso i ddarlennwyr Eco'r Wyddfa i gyfarfodydd y Cylch Llenyddol fydd yn dechrau ym mis Medi. Mae'r rhaglen eleni yn cynnwys rhai o enillwyr prif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, gan gynnwys Annes Glynn a Jason Walford Davies. Byddwn yn cyfarfod bob mis yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am saith o'r gloch ac mae croeso cynnes i bawb. £6.00 y flwyddyn yw'r tâl aelodaeth, neu bydd croeso i chi ddod i ddarlith achlysurol am £1.50.

Yn y cyfarfod cyntaf, nos Fawrth, 21 Medi, Eigra Lewis Roberts fydd yn sôn am ei nofel ddiweddaraf, *Rhannu'r Tŷ* a bydd Jason Walford Davies yn trafod y gerdd a enillodd iddo Goron yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, nos Fawrth, 19 Hydref.

Mae rhaglen y flwyddyn ar gael gan yr Ysgrifennydd, Llinos C. Davies (Ffôn 674478).

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau


* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Wavell Roberts CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Brian a Rita
Henderson

SIOP Y PENTREF

WAUNFAWR

Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid - 'bulk' a rhydd - y rhataf yn lleoll
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

Apêl Gwydr Gras 2004

Mae UNICEF yn galw ar Gristnogion Cymru i gynorthwyo plant sy'n dioddef o ddiffyg maeth.

Mae UNICEF DU yn galw ar gapeli ac eglwysi ledled Cymru i gymryd rhan yn ei Apêl Gwydr Gras blynyddol i gynorthwyo miliynau o blant ar draws y byd sydd yn dioddef o ddiffyg maeth. Gwahoddir Cristnogion i roi arian mewn jar arbennig pan fyddant yn dweud gras bwyd. Bob tro y byddant yn gwneud hynny byddant yn codi arian i ddarparu maetholion a bwydo therapiwtig i rai o chwe miliwn o blant y byd sydd yn dioddef o ddiffyg maeth.

Y llynedd, cododd cynulleidfaoedd ledled y DU £158,000 ar gyfer prosiectau dŵr a charthffosiaeth UNICEF, gan ei alluogi i adeiladu dros 900 o ffynhonnau i wasanaethu dros 225,000 o bobl. Yn ystod Apêl Gwydr Gras eleni, a fydd yn para tan fis Mehefin 2005, bydd cynulleidfaoedd yn helpu UNICEF i ddarparu cyflenwadau therapiwtig brys, ychwanegion fitamin A ac adnoddau ar gyfer canolfannau bwydo symudol. Defnyddir yr arian hefyd i gefnogi canolfannau gofal plant i addysgu cymunedau am factheg dda, gan alluogi pobl i fynd i'r afael â'r broblem eu hunain.

Mae 15,000 o blant yn marw yn ddiangen bob dydd oherwydd diffyg maeth. Mae plant sydd yn dioddef diffyg maeth yn ystod y blynyddoedd cynnar yn wynebu niwed difrifol i'w hiechyd hir dymor. Mae eu datblygiad corfforol a meddyliol yn cael ei arafu'n barhaol; mae systemau imiwnedd yn cael eu gwanhau ac mae eu twf a'u datblygiad yn cael ei lesteirio. Mae'r effaith ar fywydau plant yn para am byth.

Dywedodd Lorraine Rees, Rheolwraig Codi Arian UNICEF yng Nghymru, 'Mae dros hanner marwolaethau plant ledled y byd yn digwydd bob blwyddyn oherwydd diffyg maeth. Ni fydd y plant sydd yn llwyddo i oroesi fyth yn byw yr hyn a elwir yn fywyd 'normal'. Bydd systemau imiwnedd rhai ohonynt mor wan fel na all eu cyrff ymladd yn erbyn heintiadau ysgafn hyd yn oed.'

'Ac eto,' meddai Lorraine, 'gellir datrys y broblem hon mor hawdd. Mae bwydo therapiwtig yn rhoi canlyniadau rhyfeddol. Gall drawsnewid plentyn o fod yn fregus a diobaith i fod yn gryf ac yn barod i wynebu'r byd. Mae'n bleser gweld bywyd yn cael ei drawsnewid - a'r cyfan am bunt o jar 'Gwydr Gras' rhywun. Yn y tymor hir mae UNICEF hefyd yn mynd i'r afael â diffyg maeth mewn dull cynaliadwy, fel hyfforddi staff

mewn canolfannau gofal plant i roi cyngor i famau ar wella diet eu plant. Wedi'r cyfan mae'n well rhwystro'r clwy na'i wella.'

Astudiaeth Achos

Mae plant yn Addis Ababa, Ethiopia, eisoes yn elwa o gefnogaeth ataliol UNICEF. Mae Canolfan Iechyd Nefas Silk yn gwasanaethu bron i 90,000 o bobl ym mhrif ddinas gwlad lle mae diffyg maeth yn endemig a lle mae dros hanner y plant o dan bump oed yn dioddef o ddiffyg maeth. Yn y ganolfan, mae'r plant yn cael eu sgrinio yn gynnar ar gyfer arwyddion o ddiffyg maeth ac mae eu mamau'n cael eu dysgu sut i baratoi pryd maethlon. Mae menywod yn cael eu dysgu fod halen iodaidd yn atal anableddau dysgu ac oedi mewn datblygiad. Mae cyngor fel hyn yn rhoi'r arfau i famau i ymladd diffyg maeth yn uniongyrchol.

Bydd yr arian a gaiff ei godi gan Apêl Gwydr Gras yn gwneud cryn dipyn i helpu plant yn uniongyrchol:

- bydd £1 yn talu am y cyflenwadau therapiwtig sydd eu hangen i achub bywyd plentyn;
- bydd £54 yn talu am offer maetheg ar gyfer 60 o blant am 30 diwrnod;
- bydd £216 yn talu am ganolfan gofal plant i ddelio â diffyg maeth am flwyddyn.

I archebu deunyddiau Gwydr Gras (ar gael yn Gymraeg a Saesneg) neu am ragor o fanylion am sut i gymryd rhan, ysgrifennwch at

UNICEF, Blwch PO 5047,
Caerdydd CF5 2WT,
e-bost: lorrainer@unicef.org.uk

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.
Pentir
(01248) 353746



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Briwsion Byd Natur Dafydd Guto

Ai wedi dyfod acw ar hap a damwain?

Weithiau ym myd Natur fe dadogir enwau creaduriaid ar rai planhigion, e.e. *bys y blaidd*; *glesyn y wiber*; *dant y llew*; *clust llygoden*; *rhawn y march*. O bosib mae ffurf dail a blodau, neu hyd yn oed goesyn y planhigyn, yn atgoffa pobl o ryw greadur neu'i gilydd. A dyna dafod yr hydd? Dotiais at yr enw. Gair arall am yr anifail *carw*, *danas*, ydyw *hydd*. Rydych i gyd yn gw'bod beth ydy' tafod, ond tybed faint ohonoch sydd yn gyfarwydd â'r planhigyn?

Mae Meirion Parry yn ei glasur o lyfr, sef *Casgliad o Enwau Blodau, Llysiau a Choed* (1971) yn rhestru enwau eraill am dafod yr hydd, sef *rhedynen y gogofau*, a *dugredynen meddygol*. Ia, rhedynen ydyw tafod yr hydd ac un ydyw sy'n dra-hoff o wlybanaeth ac a dyf ar furiau ac ymhlith creigiau, yn enwedig os ceir yno bridd go galchog. Bydd yn tyfu ymhlith y *farchredynen*, (*rhedynen y cadno*), a'r *farchredynen fenyw*, (*rhedynen Mair*). Ceir sôn am dafod yr hydd yn y blynyddoedd 1606-08 wedi'i gynnwys mewn cofnod o eiddo Siôn Salusbry, a'i gwelodd yn Nhalacre, sir y Fflint ac hefyd mewn cwm wedi ei amgylchynu â choed ger Llanefydd, sir Ddinbych.

Ond pam y'i galw'n blanhigyn meddyginiaethol? Dyma beth sydd gan Raymond B. Davies i'w ddweud yn *Dan Haul* (15) Gwanwyn 1996 t.6:

'Yn nyddiau cynnar gwyddoniaeth roedd gan bobl gyffredin lawer mwy o ddiddordeb mewn astudio planhigion nac anifeiliaid oherwydd gwerth y meddyginiaethau a gynhyrchid o llysiau i wella clefydau. Oherwydd y defnydd a wneid o blanhigion datblygodd botaneg yn gynharach ac yn gynt nac swoleg.'

Gwelais hi'n tyfu ac y mae'n parhau yno ran hynny, ger yr hen blasdy yng Nglasgoed. Faint yn



union ran amser y bu hi'n tyfu yno nis gwn. A oedd y cynbreswylwyr yn ei chadw ar dir y byw oherwydd ei bod yn addas ar gyfer ei defnyddio i leddfu poen? Darllenais rywdro'n rhywle, ond methaf â chofio'r ffynhonnell, fod deilen ir tafod yr hydd, yn cael ei defnyddio i wella'ch coesau os oeddynt yn flinderog ac yn achosi trafferthion. Dywedir yn ogystal bod ochr guddedig y ddeilen, o'i llosgi, yn wirioneddol lesol os oeddech yn dioddef o losgiadau ar eich croen. Ys gwn i a glywsoch chwi am y ffisigwriaethau a enwyd? Beth am daro gair atom?

Ac i derfynu! Do, mi welais dafod yr hydd, a hynny oddeutu ddwy flynedd yn ôl, ar werth, - ia, mewn canolfan gwerthu planhigion ac offer ar gyfer yr ardd! Ac y mae hyn yn peri imi feddwl! Ai wedi dwad acw ar hap a damwain, neu o fwriad, a wnaeth y redynen dan sylw, ynte a oedd hi'n ffynnu yno ers blynyddoedd os nad canrifoedd? Anodd dweud heb dystiolaeth bendant! Mae ganddi dafod, sy'n adrodd cyfrolau, ond nid yw am dd'eud, welwch chwi, faint yn union yw ei hoedran!

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

O SIAMBAR SELWYN

A Oes Heddwch? Wel oes gobeithio.

Mae gen i ddiddordeb wedi bod erioed yn Seremonïau Gorsedd y Beirdd. Y rhai cyntaf i mi eu gweld erioed oedd yn yr hen bafiliwn yng Nghaernarfon yn 1935, pan euthum yno yn hogyn seithmlwydd i fy Eisteddfod Genedlaethol gyntaf, a gweld Gwilym R. Jones yn cael ei goroni, a'r cyn-Archdderwydd Gwyndaf yn cael ei gdeirio.

O 1935 hyd heddiw bûm ym mhob Eisteddfod Genedlaethol ag eithrio deg ohonyn nhw – ambell un dim ond ar ymweliad diwrnod, ond ers 1961 rydw i wedi bod ymhob un Prifwyl am wythnos gyfan.

Dydw i ddim yn ysgolhaig, a diolch i'r drefn dydw i ddim yn wleidydd. Dwi ddim yn honni bod yn fardd o bwys chwaith. Ond mi rydw i'n ymfalchïo yn y ffaith fy mod i'n eisteddfodwr, ac wedi bod yn eisteddfodwr drwy gydol fy oes. Roeddwn i'n 'chwarae steddod' ar yr aelwyd yn Bryn Alun, Bethel, pan oeddwn i'n grwtyn, fel y soniais yn yr Eco rai blynyddoedd yn ôl wrth ddwyn i gof chwarae marblis.

* * *

Roedd gen i lond bocs sgidia ohonyn nhw. Cannoedd o rai llwydaidd, cyffredin, a dwsinau o rai gwydrog, sgileiniog, lliwgar – y Togs – fel y gelwid nhw. Oedd, roedd gen i ddigon o farblis i gynnal 'Steddfod. Ia, i gynnal 'Steddfod Genedlaethol.

A dyna be wnawn i, fel unig blentyn, ar ambell ddiwrnod stormus. Tywallt llond bocs sgidia o'r marblis ar lawr y gegin a'u gosod nhw yn drefnus yn rhesi o eisteddfodwyr pybyr ym mhafiliwn y Genedlaethol i ddisgwyl, fel arfer i gyfeiliant 'mowth-organ'. Yna y Togo mwya un oedd gen i yn cymryd ei le ar flaen y llwyfan. Fo oedd yr Archdderwydd.

Marblan wen a offrymai Weddi'r Orsedd. Cafwyd beirniadaeth a theilyngdod ac fe gyrchwyd y bardd buddugol (sef marblan lwyd gyffredin) gan ddwy o'r togos bach lliwgar, i'r llwyfan i gael ei gadeirio yn Brifardd 'Steddfod y Marblis. Do, fe ganwyd cân y Cadeirio hefyd gan Fryn Terfel o ganwr.

Ond mi gofïaf am un 'Steddfod Farblis drychinebus. Pan oedd yr Archdderwydd ar fin galw am heddwch, fe ruthrodd Mwt y gath fel bwdosar drwy'r gynulleidfaddisgwylgar a'u sgrialu i bedwar ban byd. Bu rhaid gohirio'r eisteddfod hynod honno.

Ymhen blynyddoedd wedyn, pan oeddwn yn ymadael o Bryn

Alun daethpwyd o hyd i'r Archdderwydd yn swatio o dan yr hen gloc mawr. Rhyfedd o fyd. Mi fydd y 'Steddfod go iawn ar Barc y Faenol yn dipyn gwahanol i'r 'Steddfod Marblis a gynhaliwyd ar lawr cegin Bryn Alun flynyddoedd maith yn ôl bellach. Mae gen i un cysur. Fydd dim angen i'r Archdderwydd offyrmu Gweddi'r Orsedd na chanu Cân y Cadeirio ar lawnt y plas, mis Awst nesa.

* * *

Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch o galon i chi, gyfeillion Bro'r Eco, am eich dymuniadau da drwy gardiau, galwadau ffôn a thrwy alw yma yn bersonol. Diolch yn fawr ichi, rwy'n gwerthfawrogi hyn yn fawr. Fydd y cyfrifoldeb o fod yn Archdderwydd Cymru ddim yn waith hawdd yn ystod y tair blynedd nesa. Diolch yn arbennig i gyfeillion Bethel. Be ydi'r sibrydion ydw i wedi'u clywed am ryw ddathliad arbennig?

Rhaid i mi ddiolch i selogion a ffyddloniaid yr Eisteddfodau Lleol drwy Gymru am eu cefnogaeth. Nhw oedd yn awyddus i fy enwebu i, a nhw lenwodd y ffurflen gais ar gyfer y swydd.

Rhai fel fy nghyfaill Geraint Lloyd Owen (a ddaeth mor agos at ennill y Goron eleni eto), Karen Owen, yr ail am y Goron ym Meifod y llynedd, ac yn bur agos cleni eto. Hilma Lloyd Edwards sy wedi bod yn agos at ennill y prif anrhydeddau fwy nac unwaith. Mi fyddwn wrth fy modd petawn i'n cael y fraint o gadeirio/coroni y tri yma yn ystod y tair blynedd nesa. Tri sydd wedi bod yn gyfeillion eisteddfodol triw i mi dros y blynyddoedd, ac wedi cystadlu odana i droeon. Roedd yr hen gyfaill Mabon wedi arwyddo fy ffurflen hefyd. Roedd hi'n fraint arbennig i mi roddi cefnogaeth iddo ddod yn aelod o'r Orsedd ychydig flynyddoedd yn ôl am ei wasanaeth ffyddlon i'r Eisteddfodau Lleol. Cafodd ei gyfaill annwyl, y diweddar Wmffra, ei anrhydeddu ym Mhrifwyl Tyddewi. Dyma'r criw sy wedi cyrraedd y brig, fel Leah Owen a Gwyn Hughes Jones, am fod mor barod i'm cefnogi.

Gan mai cefnogwyr Eisteddfodau Lleol Cymru oedd yn awyddus i fy enwebu, fedrwn i ddim peidio â gofyn i Elis Wyn Roberts, Cadeirydd Cymdeithas Eisteddfodau Lleol Cymru arwyddo fy enwebiad. Diolch iddyn nhw am eu cefnogaeth diffuant.

Gyda llaw, yr eglurhad i'r

cwestiwn a ofynnwyd i mi ar Faes yr Eisteddfod yng Nghasnewydd, 'Pam na fûm i ar gyfer Eisteddfod fy mhentref fy hun yn ystod y tair blynedd diwethaf?' ydi – Ar yr union ddyddiad y cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Penisarwaun yn y flwyddyn 2001 a 2002, roeddwn i'n beirniadau yn Eisteddfod Treuddyn. Y llynedd ar yr union ddyddiad roeddwn yn beirniadu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen, Bethesda.

Gair o ddiolch i fy nghydymgeisydd, y Prifardd Gwyn ap Gwilym, am ei gwmniaeth yn y seremonïau dros gyfnod yr etholiad. Awgrymais i Gwyn yn ystod y cyhoeddi yng Nghaernarfon mai da o beth fyddai i ni'n dau orymdeithio â'n gilydd i ddangos nad oedd yna unrhyw ddrwgdeimlad rhyngom. Gwnaethom hynny, a hefyd yng Nghasnewydd ymhob gorymdaith, ac fe gawsom sawl sgwrs ddifyr, ac yn naturiol ar y telerau gorau. Fe wnes i atgoffa Gwyn am noson ei gadeirio ym Mhrifwyl Abergwaun 1986. Doedd ganddo ddim lle i aros, a chan fod 'na wely gwag yn fy ystafell i, mi gefais y fraint o rannu ystafell gyda Bardd y Gadair. Chlywais i mo'r Prifardd yn dod i'w wely, ond pan adewais yn y bore roedd o'n chwyrnu'n drwm.

Diolch Gwyn, am dy gyfeillgarwch a phob dymuniad da i'r dyfodol. Rydw i'n falch iti gael dy ethol ar Fwrdd yr Orsedd.

Am y tro felly, Diolch i bawb. A oes Heddwch? Oes siŵr.

Rhigwm i'r Hogyn

Mae'r tylluanod medde nhw
Yn dal i whitian eu tw-hw;
A gwag yw'r bont sydd ym
Mhenllyn,
Heb fawr o ddefnydd erbyn hyn.
Y ffordd sydd wynach nac erioed,
Ac nid yw'n fan i gadw oed.

Cymraeg yw iaith y 'deryn doeth,
Anghofiodd hi ei Lladin coeth.
Cyhoeddi wna tros ddôl a thwyn
Mai un o'r fro yw'r prifardd mwyn
Sydd heddiw'n brifardd yr holl
feirdd,
Yr Orsedd fawr, y dillad heirdd.

Tros hardd Eryri, dywed hi –
'Archdderwydd yw ein Selwyn ni,
Derwyddon blygant ger ei fron
A dawnsio wna y plant yn llon,
Ac yntau, tra yn gweini'r cledd,
A fydd gyfiawnder a gwir hedd.'

Mae'r tylluanod medde nhw
Yn dal i whitian eu tw-hw,
Ac er mor dlawd yw Pont Penllyn,
Fe wn am un â'i fyd mor wyn
A drig yng nghrud yr awen gref –
Fy nghyfaill Selwyn ydyw ef.

JOHN H. HUGHES
Tan-y-Clogwyn, Llanberis
(gydag ymddiheuriad i
Williams Parry a'r Tylluanod)

I longyfarch Selwyn ar ei ethol yn Archdderwydd

I blwyf Llan'iolen eto
Daeth cyfle i ymfalchïo,
Dyrchafwyd un i barchus swydd
Archdderwydd – 'rôl pleidleisio.

Yn gyson bydded heulwen
Ar dymor Selwyn Iolen,
Mae'n Eisteddfodwr cyson, brwd
A chnwd a gaed o'i awen.

Ar erwau'r Faenol fawr a'i stŵr
Daw gwên i bob 'Steddfodwr,
Gweld mab chwarelwr yno'n ben
Ar domen hen uchelwr.

Ac felly llongyfarchion
Anfonaf heddiw'n rhadlon,
Ond, meddwl wna fel chdi, am ddau
Na all fawrhau dy goron

ROL WILLIAMS
Awst 2004

I'r Hybarch

I'r Hybarch, llongyfarchion
– un o'n bro

Ar y brig yr awron,
Yn gawr dan euraidd goron
Yn uchel am Sel bydd sôn
HILMA LLOYD EDWARDS

Priodol ei ganmol ddyn gwar
ei sel

i'w swydd sy'n gyrhaeddgar,
hwn, gwreiddiau ag actau gàr
yntau, o fro eu seintwar.

NORMAN CLOSS

DIOLCH

Dymuna'r Prifardd Selwyn Griffith ddiolch i'r llu cyfeillion led-led Cymru am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur cael ei ethol yn Archdderwydd Cymru. Roedd amryw o'r cyfeillion hyn â chysylltiad â Bro'r Eco ac yn ddarllenwyr cyson o'r 'Siambar'.

Dymuna ddiolch yn arbennig i drigolion ei bentref genedigol – Bethel – am eu dymuniadau da a'u cefnogaeth.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

**Blodau
Racca**

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

CHWILOTA

MANION YM MEDI



Gan fod colofnwyr papurau bro yn haeddu rhywfaint o gwyliau dros yr haf (ac y mae ein chwaer bapur yng Nghaernarfon yn cael deufis!) braidd yn bytiog fydd eitemau'r mis hwn. Fe ddaw mwy o sylwedd wrth wynebu hirlwm y gaeaf; ac fe ddaw hwnnw'n chwap gyda hyn. Ac i'r rhai ohonoch sy'n chwilio am ddsbarthiadau nos yn y fro dros y tymor gaeafol hwnnw, mae gobaith y cynhelir cwrsg deg wythnos ar hanes lleol yn Llanberis a chwrsg cyffelyb ar hel achau yn Neiniolen. Gwylwch y wasg leol am fwy o wybodaeth gan Goleg Menai.

Corra Linn

Enw ar dŷ yn Saron, Bethel yw hwn, ond beth yw ei ystyr? A phwy roes yr enw ar y tŷ/tai gwreiddiol? Dyna'r cais ddaeth i law gan un arall o golofnwyr yr 'Eco', Dafydd Guto o Neuadd Glasgoed. Ar ymweliad â'r Alban, sylwodd fod Corra Linn yn enw ar raeadr ar yr afon Clud (Clyde) ger Lanarc Newydd. Gerllaw mae Castell Corra ac Ogorff William Wallace. Mae'n ymddangos fod gan Wallace gysylltiad â'r fro gan fod ei wraig yn hannu oddi yno. Mae'r rhaeadr Corra Linn wedi bod yn atyniad i ymwelwyr ac i arlunwyr ers canrifoedd.

Holodd Dafydd ynglŷn â'r enw a chael gwybod mai ystyr 'linn' yw rhacadr; ond gallai'r 'corra' fod â dau ystyr, sef enw person neu ddisgrifiad o grochan a'i chynnwys yn berwi. Mae'r syniad o grochan berweddig yn cyfleu'r swm a'r cynnwrf yn y pwll ar waelod y rhaeadr wrth i'r genllif o ddŵr ymarllwys iddo o uchder.

Ond, sut y daeth yr enw i Saron, lle nad oes na rhaeadr na chrochan berweddig?

Aeth Dafydd ati i ymchwilio, gan arbed gwaith i mi. Bu'n astudio cofnodion y gwahanol gyfrifiadau, a darganfu'r enw yn ymddangos am y tro cyntaf yn 1871. Roedd, bryd hynny, bedwar o dai yn Saron yn cario'r enw Corra Linn.

Yn y cyntaf o'r tai trigai William a Mary Griffith, eu merch, Elisabeth, a thad y penteulu. Roedd aelodau'r teulu i gyd wedi eu geni o fewn Arfon.

Yn yr ail dŷ roedd Thomas ac Eleanor Davies a'u merch, Jane Price. Teiliwr oedd Thomas Davies wrth ei alwedigaeth, ac mae'n amlwg i'r rhain symud o'u mannau genedigol. Ganwyd Thomas yn Lerpwl, ei wraig yn Llansantffraid a'r ferch yn Llanddulas (y ddau blwyf olaf yn yr hen Sir Ddinbych).

Yn y trydydd tŷ roedd teulu William a Margaret Roberts. Roedd iddynt bedwar o blant, sef Robert, John, Rowland ac Elisabeth. Yn Llanrug a Llanddeiniolen y ganwyd aelodau'r teulu.

Yn y pedwerydd tŷ roedd Benjamin Cunnah a'i wraig,

Dorothy, yn byw; y ddau yn hannu o Sir y Fflint. Ond roedd eu plant, Margaret, Ann, Richard ac Elisabeth i gyd wedi eu geni yn Llanddeiniolen.

Doedd yr enw ddim yn bodoli yn 1861. Mae'n ymddangos, felly, fod y tai wedi eu hadeiladu yn y deng mlynedd rhwng 1861 ac 1871, ac i'r adeiladwr neu'r perchennog neu'r tenant osod yr enw 'Corra Linn' arnynt. A oedd cysylltiad ganddo â'r Alban?

Yr unig ateb y gall Dafydd ei awgrymu yw mai ciperiaid o'r Alban a sefydlodd yno, wedi cael gwaith efallai ar Stâd y Faenol. Roedd cyflogi ciperiaid dieithr yn rhywbeth synhwyrol iawn i'w wneud o safbwynt y tîrfeddiannwr, ac y mae nifer o enghreifftiau o giperiaid a rheolwyr stâd yn cael eu cyflogi gan stadau'r Faenol a Glynllifon o ardaloedd yn yr Alban a gogledd Lloegr. Tybed mai dyma ddigwyddodd yn Saron?

Os oes rhywun â gwybodaeth neu awgrym gwahanol, cysylltwch.

Adfer Adeiladau

Mewn rhifyn blaenorol soniais am y rhaglen *Restoration* ar deledu'r BBC, a holi a oedd unrhyw adeilad hanesyddol o fewn y fro oedd yn werth ei achub pe deuai rhyw filiwnydd caredig a chynnig yr arian. Yn ystod yr haf daeth galwad gan Eifion Roberts o Lanberis yn cynnig 'Yr Offis Fawr' yn y Gilfach Ddu, Llanberis.

Y dybiaeth yw fod yr adeilad ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd a'i fod yn cael ei logi i grefftwr trin coed. Ond mae cyflwr yr adeilad yn dirywio. Mae Eifion o'r farn y dylai'r adeilad fod yn rhan o'r Amgueddfa Lechi gan i'r Offis Fawr chwarae rhan mor bwysig ym mywyd y chwarel. O'r Offis Fawr yr oedd holl weithgaredd y chwarel yn cael ei reoli, ac os câi unrhyw weithiwr 'symans' i'r Offis Fawr yna gwyddai fod mater go ddifrifol i'w drafod.

Byddai'n ddiddorol cael ymateb gan un o swyddogion yr Amgueddfa a/neu gan Gyngor Gwynedd i gadarnhau perchnogaeth yr adeilad.

Soniais yn yr un cyswllt am y 'porch' llechi sy'n prysur ddiplannu o'r ardal wrth i dai

gael eu hadnewyddu. Roedd Eifion hefyd yn crybwyll yr hen arferiad o osod llechi ar dalcen adeilad. Cyfeiriodd yn arbennig at Hafoty yn Ninorwig fel enghraifft o hyn. Mae talcen cefn Capel Bryngwyn, Llanrug hefyd wedi ei orchuddio â gorchudd o lechi. Oes enghreifftiau eraill o fewn y fro?



Harri Barber

Deuthum ar draws englynion coffa i Henry T. Parry, Pontrhythallt, yn ddiweddar. Roedd yn cael ei adnabod ar lafar fel 'Harri Bach' neu 'Harri Barber'. Torrwr gwallt wrth ei alwedigaeth, ond pysgotwr wrth anian. Roedd hefyd yn gofalu am y drysau yng Nghapel Pontrhythallt. Yr arfer bryd hynny oedd cael torri gwallt a shêf ar nos Sadwrn er mwyn bod yn drwsiadus i fynychu'r moddion ar y Sul. Byddai siop neu gwt y barbwr hefyd yn fan cyfarfod i drin a thrafod materion y dydd. Hon oedd 'Senedd y Fro'.

Glan Rhyddallt yw'r awdur, un a oedd yn cyd-oesi â Harri Barber. Mae'r englyn olaf yn glyfar iawn, ac yn gelfydd, gan nad oes ond ugain o eiriau yn yr iaith Gymraeg yn odli gyda'r sill 'wrn'.

O mae hiraeth am Harri
- trwy'i 'stafell
Trist ofid mynd iddi,
Pwy wylia'n nôr 'capel ni'
Lle mae gwall mwy o'i golli?

Frawd doniol o fryd tyner
- oedd iraid
Ei eiriau a'i dymer;
Nid byrbwyll enaid barber
A garai naws geiriau Nêr.

Un medrus ei ymadrodd - yn ei gell
Tynnai goes gwyr anodd,
Ein dadl hir yn glir iawn glôdd -
Hwn a'i synnwyr a'n swynodd.

Am drin pen yn amgenach
- a thwylo
Brithylliaid â'i blufiach;
Neu lunio gên yn lanach,
Her i bawb roi Harri bach.

Ow! Olaf egwyl ei figwrn!
- Ow wall
I'w ellyn a'i siswrn;
Yma nid yw mwy, na'i 'dwrn'
Dunos ydyw nos Sadwrn.

Tybed a oes englynion neu benillion coffa eraill ar gael i rai o hen gymeriadau neu hen grefftwyr y fro?

Helynt y Crys Isa'

Rhian Williams o Gaerdydd anfonodd yr hanesyn gwir hwn am y cwpwl o gyffiniau Cwm Dwythwch a arferai ymolchi yn Llyn Dwythwch unwaith y flwyddyn. Ie, dyma yn ôl taid Rhian, (na fyddai byth yn gwamalu na chellwair), yr achlysur blynyddol pan gâi'r cwpwl eu hunig fath!

Wrth gwrs, doedd pobl ganrifoedd yn ôl ddim yn molchi'r corff i gyd, ac fe barhaoedd yr arferiad hwnnw hyd yn ddiweddar. A heb fod yn rhy bersonol, rwy'n siŵr fod rhai hyd yn oed heddiw sy'n gyndyn iawn o folchi'r holl gorff!

Prun bynnag am hynny, yn ôl yr hanes, byddai'r cwpwl canol oed yn cyrchu am Lyn Dwythwch ar un diwrnod arbennig yn yr haf ac yn diosg eu holl ddillad cyn ymolchi yn nyfroedd y llyn. Byddai crys isaf glân yn cael ei gario yno hefyd, ac ar ôl ymolchi, câi'r crys isaf glân ei wisgo, a byddai'r crys hwnnw yn aros am y corff hyd nes deuai'r bererindod flynyddol yn ystod yr haf dilynol!

Un haf, ar ôl ymolchi a gwisgo'r dillad glân, methwyd a dod o hyd i grys isaf budr y gŵr. Er chwilio o gwmpas yn y brwyn a'r tyfiant, methwyd yn lân a'i gael. Tybiai'r ddau ei fod wedi ei chwythu i ffrwd yn yr awel neu fod anifail wedi ei gipio tra roeddynt hwy yn nŵr y llyn, felly troesant am adref heb grys budr y llynedd.

Aeth blwyddyn heibio, ac yn ôl eu harfer, daeth yn amser y bath blynyddol. Wrth ddiosg ei ddillad ar lan Llyn Dwythwch sylweddoedd y gŵr ei fod yn gwisgo dau grys! Oedd, roedd wedi gwisgo un o'r crysau isaf am ddwy flynedd, a hwnnw heb ei olchi!

Does dim angen i neb o'r darllenwyr gysylltu i gadarnhau gwirionedd y stori nac i enwi'r cymeriadau dan sylw, ond mae croeso i chwi gysylltu ynglŷn ac unrhyw agwedd arall o hanes y fro. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
**21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**
Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon
Ffôn: (01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YSGOL CWM Y GLO

Bu diwedd tymor yr haf eleni yn brysach nag arfer. Fe gawsom ein mabolgampau gyda Gethin Jones, y bachgen mwyaf llwyddiannus, a Mared Morris, yr eneth gyda'r mwyaf o farciau. Yna aeth yr ysgol gyfan i Sw Bae Colwyn am y dydd a chael digon o hwyl yno. Trefnwyd disgo gan rieni plant Bl.6 ond gorfu i ni ohirio y noson o Gyfeiriannu oherwydd y glaw. Bydd hon yn cael ei chynnal ym mis Medi.

Diolch i Sioned Mai Jones a Lowri Ffion Jones am gynrychioli'r ysgol yn seremoni cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cylch 2005 a gynhaliwyd yng Nghaernarfon. Biti na chawsant gyfle i orymdeithio oherwydd for y twydd yn wlyb.

Cafodd plant Bl.5 a 6 gyfle i weld sioe 'Gris' yn Ysgol Brynrefail. Roedd pawb wedi mwynhau y cyflwyniad yn fawr. Llongyfarchiadau mawr i chwi, yn ddisgyblion ac athrawon, fu'n ymwneud â'r sioe gerdd.

Rydym yn anfon ein cofion gorau at Mrs Lesley Morgan, ein gofawraig, sydd wedi cael triniaeth i'w hysgwydd yn yr ysbyty. Gobeithio y byddwch yn ôl gyda ni yn fuan. Diolch i Mrs Hilda Morris sydd wedi bod yn cyflenwi yn ei lle.

Enillwyr Clwb yr ysgol am fis Mehefin oedd - Dr. Esyllt Llwyd, Y Goedlan, Llanrug; Mrs. Rita Morris, 5 Minffordd, Brynrefail; Mrs. Marjorie Roberts, Bod Gwilym, Cwm y Glo. Ym mis Gorffennaf yr enillwyr oedd Mrs. Margaret Williams, Goleufryn, Cwm y Glo; Mr. Terry Williams, Bryn, Cwm y Glo a Mrs. Meinir Sian Llwyd, Hafan, Llanrug. Yna ym mis Awst aeth y gwobrau i Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, Cwm y Glo; Miss Megan Glyn Oliver, Gors, Brynrefail a Mr. Rhodri Llwyd, Y Goedlan, Llanrug.

I gloi gweithgareddau'r flwyddyn cafwyd Gwasanaeth arbennig i gyflwyno gwobrau a thystysgrifau i'r plant. Rydym yn dymuno y gorau i David, Gethin, Mark, Aron, Luke, Dewi, Amy a Rebecca sy'n dechrau ym Bl.7 yn Ysgol Brynrefail eleni. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yno a gwnewch eich gorau. Roedd yn gyfle hefyd i farwelio â Miss Sharon Roberts sydd wedi bod yn hynod ei gwasanaeth yn yr ysgol. Bu'n cymhorthydd gweinyddol, yn glerc cinio ac yn gymhorthydd dosbarth amhrisiadwy. Bu hefyd yn ofalus iawn o Jack, sydd bellach wedi mynd i fyw i Seland Newydd am gyfnod. Diolch o galon Miss Sharon a phob dymuniad da yn eich menter newydd ym myd busnes.

Roedd Mrs Lowri Prys Roberts-Williams hefyd yn gorffen yn ei swydd fel Clerc i'r Llywodraethwyr. Diolch i chwithau am bedair mlynedd o wasanaeth ffyddlon a gwerthfawr i ni.

Yn ogystal a hyn, roedd Mrs. Mair Lloyd Hughes yn ymddeol fel pennaeth yr ysgol ar ôl deuddeng mlynedd wrth y llyw. Cyflwynwyd blodau a rhoddion i'r tair ohonynt.

DIOLCH

Gan mai hwn fydd fy nghyfraniad olaf i fel pennaeth Ysgol Cwm y Glo, mi garwn roi gair o ddiolch diffuant iawn i gymaint sydd wedi

bod yn gefn aruthrol i mi tra yn y swydd. Mae deuddeng mlynedd wedi gwibio heibio ers i mi gymryd yr awenau - blynyddoedd fu'n hynod o hapus. Ym mis Medi 1992 roedd 39 o blant yma ac erbyn hyn mae yma 93. Cyfnod cyffrous yn wir o dyfu ac ehangu a chymaint hefyd o newidiadau ym myd addysg yn gyffredinol.

Ar hyd y cyfnod hwn, roedd yma dîm gweithgar ac ymroddedig o athrawon, cymorthyddion a staff ategol. Criw oedd mor agos at ei gilydd fel ein bod yn fwy o deulu nag o weithgor. Tu ôl i ninnau, rydym wedi bod yn hynod o ffodus o gael rhieni brwdfrydig a gweithgar sydd wedi trefnu ac ymuno mewn pob math o weithgareddau. Mawr yw fy niolch iddynt hwythau.

Yna mae'n rhaid i mi gyfeirio at y Llywodraethwyr sydd wedi bod yn fy helpu i arwain yr ysgol yn bwylllog a doeth. Bu hyn ar hyd y blynyddoedd dan gadeiryddiaeth gadarn y Cyngh. Brian Jones. Mae fy nyled iddo ef yn enfawr.

Mi hoffwn i ddiolch i chwi fel cymdogaeth - pentrefwyr Cwm y Glo, Brynrefail a'r Fachwen a rhai tu draw i ddalgylch yr ysgol. Buoch yn gefnogol iawn i'r ysgol dros y cyfnod ac yn ystod yr amser hwn rwyf wedi gwneud llawer iawn o ffrindiau yma. Mi garwn ddiolch i bawb am y rhoddion gwerthfawr, y blodau, y cardiau, pob llythyr ac e-bost a dderbyniais ar fymdeoliad. Rwyf yn gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Ym mis Medi, bydd Mrs Eleri Davies yn dechrau fel pennaeth newydd yng Nghwm y Glo. Rwy'n mawr obeithio y bydd hithau yn cael yr un croeso a'r gefnogaeth ffyddlon y cefais i y ffrainc o'u derbyn. Rwy'n dymuno'r gorau iddi yn ei swydd ac hefyd i'r ffrindiau dwi'n eu gadael yn yr ysgol arbennig hon.

Yn ddiffuant

MAIR LLOYD HUGHES

CAPEL Y TABERNACL. Pnawn Sul, 18 Gorffennaf, gweinyddwyd dwy Sacrament, sef Bedydd a'r Cymun Bendigaidd. Bedyddiwyd Elli, Keith a Robert (gefeilliaid), tri plentyn bach Jennifer a Rob, 4 Dôl Afon. Gwasanaethwyd gan ein gweinidog, y Parch Gwynfor Williams, gyda Mrs Lowri Prys Roberts-Williams wrth yr organ. GENEDIGAETH. Llongyfarchion i Samantha a Gavin, 9 Dôl Afon ar enedigaeth mab bach, Dion, brawd bach i Lee.

LLONGYFARCHIADAU i Nerys, 6 Bryn Hyfryd, ar ennill Tystysgrif Addysgol, hefyd i Leri, Derlwyn, Craig-y-don, ar ennill gradd BA mewn Hanes ym Mhrifysgol Bangor. Pob dymuniad da yn y dyfodol i'r ddwy.

YMDDEOLIAD. Ein dymuniad gorau i Mrs Mair Hughes, prifathrawes yr ysgol, ar ei hymddeoliad ddiwedd y tymor diwethaf, gan ddiolch yn ddiffuant iawn iddi am ei gwaith i Ysgol Cwm-y-glo ac i'r gymuned am y deuddeng mlynedd diwethaf. Mae ein diolch yn fawr hefyd i Mr Gwyndaf Hughes am roi llawer o amser yn ystod ei wyliau i roi help llaw i Mrs Hughes.

Hefyd dymunwn longyfarch y ddau ar enedigaeth eu wyres fach rai wythnosau yn ôl.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Delyth, Mair, Carys ac Aled ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r geiriau caredig o gydymdeimlad a gawsant ar ôl colli Selyf, gw'r, tad a thaid annwyl iawn.

Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at yr Uned Arennau, Ysbyty Gwynedd ac Ambiwllans Awyr Gogledd Cymru.

DYMUNA Menna Jones, 6 Stryd y Ffynnon, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, arian a galwadau ffôn tra bu yn cael llawdriniaeth yn yr ysbyty.

Diolch hefyd i'r nyrsys a'r doctoriaid am y gofal ar Ward Dulas.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS Ar 25 Gorffennaf bu'r côr yn cynnal cyngerdd yn yr eglwys yn Betws y Coed. Mae'r eglwys yn cynnal cyngerddau pob nos Sul yn ystod yr haf ac yn rhoi gwahoddiad i gorau Gwynedd a Chlwyd i ddiddanu'r gynulleidf. Yn ogystal â nifer o eitemau gan y côr cafwyd cyfraniad gan unawdydd gwâdd y côr, sef Elin Mai Jones o Lanberis. Buasai'r côr yn falch o ychwanegu at ei aelodaeth. Os y dymunwch chi neu y tybiwch y buasai ffrind neu gymydog yn cael pleser o fod

yn aelod o'r côr, dowch i gysylltiad hefo unrhyw aelod. Bydd y côr yn ailgychwyn ymarfer ar nos Lun, 30 Awst am 7.30 yn yr Oriel, Llanberis.

PRIODAS AUR. Carai Bob a Norah, 14 Dôl Elidir, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur ar 7 Awst. PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2005. Cafwyd noson bingo lwyddiannus yng Ngwesty Dolbadarn ddiwedd Gorffennaf ble gwnaethpwyd elw o £200. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r merched a drefnodd y noson ac i bawb a gyfrannodd wobrau.

Hefyd anfonwyd llythyr apêl i dros saithdeg o fusnesau lleol i ofyn am gyfraniadau i'r gronfa. Dim ond un busnes sydd wedi ymateb hyd yma.

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r pwyllgor apêl nos Fawrth, Medi 7, am 7.00yh yn Angorfa, Llanberis. LLONGYFARCHIADAU mawr i dîm pêl-droed dan 9 Llanberis am ennill Cwpan Chwaraeon Cynghrair Gwyrfa eleni! Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cynorthwyo efo'r tîm dros y flwyddyn ddiwethaf ac i'r rhieni am gludo'r sêr pêl-droed yn ôl ac ymlaen!



Enillwyr Cwpan Chwaraeon Cynghrair Ieuentid Gwyrfa dan 9.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

GWELLHAD BUAN i Alan Pritchard, Llys Awel gynt sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd gan bawb o'r Nant. PEN BLWYDD HAPUS i Tomos Bleddyn, 6 Nant Ffynnon ac i Stephanie Welsby, 1 Glanrafon a fydd yn ddeunaw oed y mis yma. LLONGYFARCHIADAU i bawb fu'n llwyddiannus mewn arholiadau TGAU a LEFEL A eleni a phob lwc i John Paul, 1 Bro Glyder yn y brifysgol.

FFAIR NANT

Cofiwch am y cystadlaethau cartref, Rhaid cyflwyno'r crefftwaith erbyn yr 11eg o Fedi a'r bwydydd erbyn dydd Gwener y 17fed i Ty'n Llan.

LIMRIGAU. Yn ôl yr arfer cynhelir cystadleuaeth ysgrifennu limrig eto eleni ar nos Sadwrn y 18fed, sef diwrnod y ffair ei hun. Os am gystadlu rhwng eich enw mewn amlen a'ch ffugenw ar y blaen a'i gyflwyno gyda'ch ymgais i Ty'n Llan, ble cant eu hel gan y beirniaid.

Dyma'r llinellau cyntaf:

1. Roedd dafad o'r enw Angharad.....
2. Aeth Mims un nos Wener i botio.....
3. Ken Beudy Mawr sydd yn ffarmio.....

Dydd Sadwrn Medi 11: dechrau'r wyl flodau - derbynir blodau yn yr eglwys yn ddyddiol.

Dydd Sul Medi 12: Cymanfa Ganu yn Eglwys Sant Peris am 7.00 y.h.

Nos Lun: Noson Rasio ceffylau! 7.30 y.h. Ty'n Llan.

Nos Fawrth Medi 14: Cwis yn Ty'n Llan am 8.00 y.h.

Nos Fercher Medi 15: Cystadleuaeth Pŵl yn Ty'n Llan - cychwynnir am 6.30 yn brydlon!

Nos Iau Medi 16: Helfa Drysor - i gychwyn o faes parcio Ty'n Llan am 6.30 y.h.

Nos Wener Medi 17: Stars in Your

(Parhad ar dudalen 11)

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar 1 Gorffennaf aeth 11 o aelodau a 5 o ffrindiau am drip i Felin Llynnon yn Llanddeusant. Cafwyd y cyfle i fynd i mewn i'r Felin i'w gweld yn cynhyrchu'r blawd a hefyd i'w brynu. Ar ôl gwario ychydig o amser a phresl yn y siop, mynd i'r caffi am de blasus iawn. Roedd pawb wedi mwynhau'r prynhawn yn fawr. Ar 2 Medi, yn Festri Eglwys y Waun, Ms Cleo De Vito o Macmillan Cancer Relief fydd y wraig wadd. Croeso cynnes i aelodau newydd.

CLWB BOWLIO. Mae'r Clwb wedi cau am fis Awst ond bydd yn ailagor ar bawn lau, 2 Medi. Beth am alw i mewn i gael blas o'r gêm. Mae'n braf iawn i gael rhywle i gyfarfod ffrindiau pan fydd yn rhy oer a gwlyd i fynd allan i ymarfer. Croeso cynnes i aelodau newydd.

CLWB 300. Dyma restr o'r enillwyr am fis Mai:

£40: Mrs L.J. Williams, Plas Bodhyfryd; £25: Mr Martin Williams, 6 Tŷ Hen; £10: Mr Tegid Pritchard, Cartref.

Enillwyr mis Gorffennaf oedd:

£40: Mr G. Coles, 6 Bro Waun; £25: Mrs M.E. Overbury, d/o Bryn Gwennallt; £10: Mrs Rhian Owen, 7 Tŷ Hen.

LLONGYFARCHIADAU.

Yng Nghapel y Rhos, Llanrug, priodwyd Andrew Beech, Rose Mount â Judith Jones o Lanrug. Dymunwn yn dda iddynt ar eu priodas a phob hapusrwydd yn eu cartref newydd.

Dymunwn yn dda i Mererid ac Egryn, Is-Eilian ar eu priodas yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Gweinyddwyd y briodas gan y Parch Lorna Roberts, modryb i Mererid a merch yng nghyfraith i Mrs J.D. Roberts, Caernarfon (Bryn Teg gynt).

PEN-BLWYDD PRIODAS. Bu Cyril a Janet Smith, Rhoslan yn dathlu eu priodas arian yn ddiweddar. Estynnwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau da i'r dyfodol iddynt.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i'n meddyg teulu, Doctor Esyllt a Rhodri Llwyd ar enedigaeth merch fach, Nanw Haf, chwaer a ffrind fach i Macsen.

Ganwyd mab bychan, Siôn i Diane, 8 Ael y Bryn, ŵyr bach i Eirian ac i Elwyn yng Nghaernarfon.

Daeth Duncan a Gill Brown, Gwelfor yn daid a nain eto. Ganwyd mab bach, Tomi Llewelyn, i Beca, brawd bach i Lisa. Dymunwn yn dda i'r teuluoedd a'r rhai bach.

YMDDEOL. Dymunwn bob hapusrwydd i Gill Wyn, Y Frenni, ar ei hymddeoliad o'i swydd fel darlithydd yng Ngholeg Pencraig, Llangefni.

DYMUNIADAU DA. A gwyliau'r haf yn tynnu at eu terfyn bydd llawer un yn cychwyn gyrfâ newydd mewn ysgol, coleg a swydd. Dymunwn yn dda i bob un ohonoch.

Estynnwn ein llongyfarchiadau i'r rhai fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau ysgol a choleg gan ddymuno'n dda iddynt i'r dyfodol.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Catrin Thomas, Stad Tref Eilian, sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, gan ddymuno gwellhad iti, Catrin.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Miss Eirlys Jones,

Maelor; Jeanette Griffith, 8 Bryn Golau; Mrs Gwladys Jones, Stad Tref Eilian adref o'r ysbyty a Mr Aled Taylor, Baladeulyn a Mr David Parry, Bro Waun wedi iddynt gael llawdriniaeth yn yr ysbyty. Hyderwn eu bod yn gwella wedi cael dod adref.

Mae Kevin Dvies, Stad Tŷ Hen yn gwella wedi iddo gael triniaeth i'w droed a Ffion Williams, hefyd o Stad Tŷ Hen yn gwella wedi iddi ddisgyn a thorri ei braich ac mae Mrs Roberts, Stad Tref Eilian wedi syrthio ac agor ei phen-glin. Anfonwn ein cofion ati hithau.

Anfonwn ein cofion hefyd at y rhai o'r pentref sydd yn gaeth i'w cartrefi oherwydd anhwylder iechyd ac at y rhai sydd mewn cartref preswyl, ac at Miss Doris Roberts, Awelfryn, sydd wedi mynd i aros i Gartref Dwyrfa am gyfnod.

CYDYMDEIMLO.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Glenys Jones a theulu Rhandir Mwyn yn eu profedigaeth o golli mam Glenys yn ddiweddar.

Yr un yw ein cydymdeimlad â Mrs Maureen a Gwilym Hughes, Bryn Peris yn eu profedigaeth o golli mam Maureen.


CÔR Y WAUN. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y côr ar nos Sul, 4 Gorffennaf pryd y penderfynwyd cadw gyda'r swyddogion presennol. Bu'r Côr yn cynnal noson yn y Victoria, Llanberis ar nos lau, 27 Gorffennaf i ddiddanu'r ymwelwyr. R. Gwynn Davies oedd yn arwain y noson yn hwyliog fel arfer a chafwyd cwmni yr unawdydd Fiona Sanderson i roi pedwar datganiad cofiadwy. Bu'n noson ddifyr gyda chynulleidfâ werthfawrogol iawn i orffen arni cyn gwyliau'r haf. Bydd ymarferion y côr yn ailgychwyn ar nos Sul, 5 Medi. Bwriadwn gymryd rhan mewn cyngerdd yng Nghaernarfon ar nos Wener, 17 Medi i godi arian ar gyfer Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru, a byddwn yng Ngwesty'r Victoria unwaith eto ar nos lau, 23 Medi. Os ydych eisiau trefnu noson gyda'r côr cofiwch gysylltu â'r ysgrifennydd, Emyr Roberts ar (01286) 650128.

APÊL GAN YR ANTUR. Mae gweithwyr Antur Waunfawr yn casglu cardiau cyfarch o bob math (pen-blwydd a.y.y.b) ar gyfer eu hail-gylchu (ail-ddefnyddio) yn eu gweithdy.

Gofynant yn garedig i ddarlennwyr yr Eco, os oes gennych gardiau nad ydych eu hangen mwyach ac am eu rhoi i'r Antur, wnewch chi gysylltu â hwy ar rif ffôn (01286) 650721, er mwyn iddynt drefnu i'w casglu gennych. Diolch. EJ 4803

Ychydig wythnosau yn ôl, ar hysbysfwrdd Siop y Pentref, gwnaed cais am wybodaeth ynghylch hanes 'Riley Merlin - Rhif EJ 4803', yn dyddio o 1936, ac oedd a chysylltiad â'r pentref flynyddoedd yn ôl. Sylweddolwyd mai cyfeiriad oedd at gar y diweddar Barch O.H. Jones, fu yn weinidog yn Llanilar am 40 mlynedd, ond a dreuliodd flynyddoedd olaf ei oes yn ei hen gartref yn Glanfa, Waunfawr.

Yn dilyn ei farwolaeth yn niwedd chwe degau'r ganrif ddiwethaf bu'r



Mr Gwynn Davies a'i frawd, Dewi, yn edmygu car eu hen ewythr, y Parch O.H. Jones, ar ei newydd wedd.

car yn araf byddu hyd nes ei werthu yn 1974 am £25.

Tros y blynyddoedd ailadeiladwyd y car gan Glyn Edwards o Rugby, a enillodd y wobr gyntaf am y prosiect yn Rali Coventry yn 1992. Ei berchennog yn awr yw John de Newtown, Caer, sydd wedi mynd i drafferth rhyfeddol i ymchwilio hanes y car, ac i hanes y diweddar Barch O.H. Jones.

Daeth a'r car i 'Antur Waunfawr' i'w arddangos ar ei newydd wedd.

Roedd cael ail-gydnabyddu â'r Riley (er nad yw bellach yn gwisgo ei lifrai du gwreiddiol) yn brofiad hyfryd i Gwynn a Dewi. Mae'r ddau yn cofio fel yr oedd eu hewythr yn addoli'r Riley - car oedd, mewn gwirionedd, yn arbennig o ran ei wneuthuriad. Mae y 'centrifugal flywheel with a pre-selector automatic gearbox' yn dal i fod yn rhyfeddod.

Pris y car pan gafodd ei brynu yn newydd yn Aberystwyth, oedd £269.

Tybed faint yw ei werth yn awr?

YSGOL WAUNFAWR

Cynhaliwyd diwrnod Mabolgampau'r ysgol ddydd Mercher, 7 Gorffennaf, ac er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn ddechrau'r bore cafwyd diwrnod arbennig o dda. Roedd pawb wedi gwisgo yn lliwiau eu tai: Cadnant mewn glas, Gwyrfaï mewn coch a thîm Eilio mewn melyn. Cafwyd cystadlu brwd o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 6, a phinacl y pawns oedd y ras farathon blwyddyn 5 a 6. Gwyrfaï orfu eto eleni a'u capteiniaid Tomos Parry a Meleri Gwyrfaï yn derbyn y darian a thariannau bach iddynt eu hunain i gofio'r achlysur.

Y diwrnod canlynol cynhaliwyd ein Ffair Haf flynyddol. Yn anffodus oherwydd y tywydd gwlyb ni chynhaliwyd y gemau ar y cae a cholodd y plant gyfle i gael reid ar y ceffyl a thrap. Er y glaw, gwnaed elw anrhydeddus o £850.00. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Gwefreiddiwyd holl blant yr ysgol ddydd Llun, 12 Gorffennaf, wrth iddynt glywed y pianydd enwog, Iwan Llywelyn Jones, yn rhoi datganiad ar y piano. Roedd Mrs Ann Marston wedi trefnu iddo fod yn ŵr gwadd i gyfarfod gwobrwyo'r Darian Gerdd am eleni. Diolch iddi hi am drefnu gwsteion dros y blynyddoedd. Profiad braf iawn oedd clywed y plant yn canu amryw o ganeuon, yn enwedig 'Franz o wlad Awstria' a Mr Iwan Llywelyn Jones yn cyfeilio iddynt!

Enillydd y darian am eleni yw Sharon Hanks, blwyddyn 6. Llongyfarchiadau iddi hi.

I gloi y tymor a'r flwyddyn addysgol cynhaliwyd y Cyfarfod Gwobrwyo ddydd lau, 15 Gorffennaf. Dyma'r enillwyr eleni: Tarian Gelf: Siôn Harman, Bl 5; Tarian Ymdrech: Osian Everett, Bl 4 a Gwenan Williams, Bl 4.

Tarian Cywaith: Jessica Williams, Bl 5

Gwobr Cywaith Bl 4: Hannah Latham a Hanna Mair; Bl 5: Gavin Morris; Bl 6: Cara Pritchard.

Derbyniodd Tomos Meredydd, dosbarth meithrin; Enlli Pritchard, Bl derbyn; Rea Griffiths, Bl 1; Angharad P. Jones, Bl 2; Carwyn Lowe, Bl 3; Jamie Anderson, Bl 4 a Lea Owen, Bl 5 docyn llyfr £5.00 yr un am gasglu'r symiau mwyaf yn y teithiau nodedig.

Cyflwynwyd geiriaduron yn rhodd i blant blwyddyn 6 oedd yn ein gadael eleni, a dymunir yn dda iddynt yn ysgolion Syr Hugh Owen a Brynrefail.

Bu'n rhaid ffarwelio hefyd â Mrs Wendon Davies a fu'n cydweithio â ni yn yr ysgol am bron i wyth mlynedd. Cyflwynwyd cacen, basged o flodau a rhodd ariannol iddi. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i chwi, Wendon - galwch draw i'n gweld.

Gwyliau dedwydd a diolch i bawb am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.



Mrs Wendon Davies yn ymddeol o Ysgol Waunfawr.

(Parhad Trosodd)



Mrs Ann Marston a'r gŵr gwadd, Iwan Llywelyn Jones, yn cyflwyno Tarian Gerdd Ysgol Waunfawr am 2004 i Sharon Hanks, Bl 6.



Mabolgampau Ysgol Waunfawr. Gwyrfaï – y tŷ buddugol!

STEPHEN JONES

✚ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

Ymunwch â ni yn Penrhos am ddiwrnod i'w gofio!!

- Y Priodasau
- Y Achlysuron Arbennig
- Y Partion Plant
- Y Cyfarfodydd
- Y Gwely a Brecwast
- Y Lleoliadau Ffilmio
- Y Te Angladdau



Penrhos, Caeathro, Caernarfon

(01286) 676667

Y Lleoliad Perffaith ar gyfer unrhyw Achlysur

Pryd i Bawb

Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190



GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384



LLUN: ELWYN ROBERTS BETHESDA

PRIODAS. Yng Nghapel y Rhos, ar 26 Mehefin, priodwyd Claire Louise, merch Mr a Mrs John Meredydd Jones, 9 Tal-y-Bont, gyda Barry Wyn Evans, mab Mr a Mrs Ifor W. Evans, Bryncir. Gweinyddwyd y briodas gan y Parch Dafydd Lloyd Hughes. Y morwynion oedd Katie Ann Evans a Samantha Wyn Evans. Y gwas priodas oedd Stephen Paul Williams. Merch y blodau oedd Chloe Ogilvy a'r gwas bach oedd Adam Lee Gordon Fletcher. Cynhaliwyd y wledde briodas yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Dymunir pob hapusrwydd i'r par ifanc

Atodiad Nant Peris

(Parhad o dudalen 10)

Eyes yn Ty'n Llan! Dyma'ch cyfle i 100 yn Elvis neu'n Madonnal Cystadleuaeth y plant – 6.30 y.h. a'r oedolion am 7.30 y.h. £2 i gystadlu – cysylltwch â Llinos (871820) os am gystadlu, er mwyn trefnu'r gerddoriaeth!

LLONGYFARCHIADAU i Sara Closs-Stacey, Tan Bryn, am basio ei harholiad canu cyntaf! Gŵyl y Faenol amdani nesaf!

CAPEL REHOBOTH.

'Ewch i mewn i'w byrth Ef a diolch'. Oedfaon Capel Rehoboth ar gyfer mis Medi (am 2.00 pm bob Sul).

5: Y Parch Iorwerth Jones, Owen, Caernarfon;

12: Y Gweinidog;

19: Y Parch Iorwerth P. Jones, Ysbyty Ifan;

26: Mr John H. Hughes, Llanberis. Mae croeso cynnes i holl ddarlennwyr yr 'Eco' droi i mewn, a bydd paned yn dilyn yr oedfa.

Cynhelir ysgol Sul a dosbarth celf ar gyfer y plant a'r bobl ifanc am 2.15 yn y festri.

Bydd gemau ping pong, hoci aer a snwcer yn dilyn am 3.00 ar gyfer mynychwyr yr ysgol Sul.

NEUADD BENTREF (sef Festri Rehoboth). Cynhelir cyfarfod hanner blyneddol Pwyllgor Neuadd Bentref Nant Peris am 7.00 pm nos Fercher, 15 Medi yn y Festri. Mae croeso i bawb o'r pentref ymuno â'r Pwyllgor. Ar nosweithiau Llun, cynhelir gweithgaredd cadw'n heini i ferched am 7.00 pm.

Ar nosweithiau Mercher cynhelir dosbarth celf i blant a phobl ifanc am 7.00 pm.

Ar nos Iau, 16 Medi am 8.00 cynhelir cyfarfod o'r grŵp 'Cyd', lle bydd brodorion yn cymdeithasu hefo dysgwyr a'u helpu i wella eu Cymraeg, ac hefyd i weld a oes diddordeb mewn cynnal gwersi Cymraeg yn y pentref.

sydd wedi ymgartrefu yng Nghaeathro. SALWCH. Brysiwch wella Mrs Pritchard, Hafan Elan ac unrhyw berson sydd ddim yn dda eu hiechyd. **BABIS NEWYDD.**

Llongyfarchiadau mawr i Deian a Claire Roberts (Meifod gynt) ar enedigaeth eu mab bach, Harvey, yn Swydd Efrog. W'yr cyntaf i Selwyn a Betty, Meifod.

I Rhodri ac Esyllt Llwyd ar enedigaeth Nanw Haf, chwaer fach i Macsen a wyres gyntaf i Gwyndaf a Mair Hughes.

I Lowri Angharad a Siôn Gwyn ar enedigaeth eu mab bach, Math Siôn. Llongyfarchiadau mawr i Taid a Nain newydd, John a Mary Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon. **DIOLCHIADAU.**

Dymuna Deian a Claire Roberts, Swydd Efrog, ddiolch i'r teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Harvey.

PWYLLGOR CODI ARIAN AR GYFER EISTEDDFOD 2005. Yn ddiweddar cafwyd cyfarfod anffurfiol i geisio codi pwyllgor yn ypentref i drefnu gweithgareddau. Daeth cynrychiolaeth dda o wahanol fudiadau ac unigolion sydd â diddordeb â'r pentref at ei gilydd i gyrraedd targed plwyff Llanrug a Chwm-y-glo o £9,000.

Mae sawl gweithgaredd wedi ei drefnu yn barod, y cyntaf fydd Diwrnod Coffi a byrddau gwerthu yn y Ganolfan ar 19 Awst.

Mae Dafydd ac Aled Gibbard wedi trefnu diwrnod nodedig o Bêl-droed ar gar Pwll Moelyn i rieni a phlant ar 18 Medi, drwy'r dydd. Dewch i gefnogi a gwyliwch am y posteri a'r hysbys.

Os am roi unrhyw gymorth, mewn unrhyw ffordd, cysylltwch os gwelwch yn dda ag Olwen Hughes (674836), Meirwen Lloyd (675359) neu Eryl Roberts (675384).

PROFEDIGAETHAU.

Gydymdeimlwn yn ddiffuant gyda'r teuluoedd canlynol:

Bu farw Mrs Catherine Owen, Erw Wen, Ffordd Glanffynnon ar 4 Awst yn 83 mlwydd oed. Gweddw Mr John Owen (Penrhyn Bach gynt) a mam annwyl Ann a David. Bydd colled enfawr iddynt ac i'r wyrion, wyres, gorwyrion a wyresau ac i'w chwaer a'i brawd.

Yn sydyn bu farw Mrs Catherine Jones, Cae Poeth. Gweddw Mr Rolant Jones, mam annwyl iawn Helen, Tecwyn a Geraint, eu plant a'r wyrion a wyresau a'r teulu i gyd. Roedd Mrs Jones wedi gallu mwynhau ei bywyd yn llawn ac yn hapus iawn fod Carol a'r teulu wedi symud i fyw ar dir Cae Poeth.

Bu farw Mrs Joyce Jones, Y Garn, Bryn Moelyn ar 3 Awst wedi brwydr hir â'i gwaeledd. Roedd yn berson tawel ac annwyl, heb gwyno dim am ei chyflwr. Anfonwn ein cofion diffuant i'w gw'r, Islwyn, y plant, Nest, Wena a Beth, eu gwyr a'r wyrion a wyresau, ei brodyr a'i chwiorydd a'i ffrindiau gofalus a thriw.

Er cof am Mrs Joyce Jones, Y Garn 7 Bryn Moelyn

Ffarwelio – i newid byd

Dacw'r llong yn hwylio'n dawel
Ac un annwyl ar ei bwrdd,
Pruddaidd iawn oedd cri y ffarwel
Fel âi'r llong draw 'mheli i ffrwd.

Ffrwd o'n golwg aeth o'r diwedd,
Llai ei maint o'n golwg ni,
Fel âi 'mlaen ymhellach, bellach,
Tua'r porthladd dros y lli.

Glanio'n ddiogel, a chael croeso,
Croes cynnes, torf ddiri
Ganai'n llon a gorfoleddus
Am haeddiannau Calfari.

ALWENA WILLIAMS, LLANDDONA

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Persis James, Bryn Mair ar gyrraedd ei phen-blwydd yn naw deg pump yn ddiweddar.

Daeth y teulu ynghyd yn Castell Deudraeth a chafwyd prynhawn braf. Diolch am bob caredigrwydd.

ENILLODD Manon Awst, Pencarnisiog, Ynys Môn, Ysgoloriaeth Pensaer ifanc o dan 25 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd. Merch ydyw i Doctor Medwyn a Myfanwy Williams, ac mae'n wyres i Mrs Nan Jones, Perthi, Ffordd yr Orsaf a Mrs Eileen Williams, 10 Afon Rhos. Mae Manon yn dechrau ar ei thrydedd flwyddyn mis Hydref yng Ngholeg Emmanuel, Caergrawnt.

CAPEL Y RHOS

Yn wahanol i amryw o gapeli yng Nghymru heddiw, ymestyn y mae Capel y Rhos ac nid cau. Oherwydd poblogrwydd yr Ysgol Sul, aeth lle yn brin yn y festri ac fe ychwanegwyd ystafelloedd at yr adeilad. Cafodd y capel ei hun hefyd ei adnewyddu, o'r tu mewn a'r tu allan, ac erbyn hyn mae cegin newydd a chyfleusterau modern yma. Am fisoedd bu'r Eglwys Fethodistaidd yn garedig iawn yn gadael i'r gynulleidfa addoli yn Hermon bob Sul, tra roedd yr Ysgol Sul yn cael ei chynnal yn yr Ysgol Gynradd, ond erbyn hyn mae Capel y Rhos yn agored ar ei newydd wedd, a phawb gyda'i gilydd unwaith eto.

Nos Lun, 5 Gorffennaf, gwelwyd tua hanner cant o blant yr eglwys yn gorymdeithio trwy'r pentre gyda'u hathrawon. Yn disgwyl amdanynt wrth giât y capel roedd tyrfa dda o aelodau a chyfeillion. Mrs Enid Whiteside Thomas gafodd y ffrind o agor y drws yn swyddogol am y tro cyntaf; mae Mrs Thomas yn aelod o un o'r teuluoedd hynaf yn yr eglwys, ac yn cofio'r hen festri yn cael ei hadeiladu flynyddoedd yn ôl, a phawb yn helpu gyda'r gwaith.

Roedd y capel bron yn llawn i'r Gwasanaeth Arbennig; cymerwyd rhan gan rai o flaenorïad ac aelodau'r eglwys, a chafwyd atgofion difyr gan rai a fu â chysylltiad â'r eglwys yn y gorffennol. Roedd pedwar o Weinidogion yr Efengyl yn bresennol, tri wedi eu magu yn eglwys Pontrhyrthallt, sef Huw Gwynfa Roberts, Dafydd H. Owen a Bryn Williams, a Chledwyn Griffiths a fagwyd yn eglwys Tan-y-coed, y pedwar yn sôn am eu magwraeth yn y pentref ac yn dymuno'n dda i Gapel y Rhos yn y dyfodol. Ond y plant oedd sêr y noson; llond y Sêr Fawr ohonynt yn canu ac yn amlwg yn mwynhau eu hunain. Mae Capel y Rhos yn hynod o ffodus yn nifer y plant sy'n dod i'r Ysgol Sul, ac yn yr athrawon ifanc sy'n eu dysgu. Mae'n werth dod i'r opedfa ar fore Sul i weld llond un ochr o'r capel o blant yn ystod y gwasanaeth dechreuol. Cafodd un o'r athrawon, Mrs Rhian Whiteside Thomas, gyfle i ddiolch i'r eglwys am baratoi'r cyfleusterau newydd ar eu cyfer. Edrych ymlaen i'r dyfodol mae Capel y Rhos. Fel y dywedodd y Gweinidog, Y Parch Dafydd Hughes, cafwyd adnewyddiad i'r adeilad allanol, mae gwir angen rwan am adnewyddiad ysbrydol, ac estyniad i waith ac addoliad yr eglwys.

Yn dilyn y gwasanaeth, cafodd pawb gyfle i grwydro o gwmpas yr ystafelloedd newydd, gweld y gwelliannau i'r adeilad a mwynhau paned a sgwrs.

PLAID CYMRU. Nos Fercher, 15 Medi, bydd tymor newydd Cangen Llanrug o Blaidd Cymru yn dechrau gyda sgwrs gan Ieuan Wyn. Nid oes angen cyflwyno Ieuan i bobol Llanrug gan iddo fod yn athro yn yr Ysgol Gynradd tan ei ymddeoliad yr haf yma. Gwyddom amdano fel bardd, yn Brifardd ar ôl ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog yn 1987 am ei awdl, 'Llanw a Thrai'; mae'n hanesydd arbennig o ddifyr, ac yn weithgar gyda Chylch yr Iaith a

phob mudiad arall sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Croeso cynnes iawn i bawb i'r cyfarfod yn y Sefydliad Coffa am 7.30.

MRS JONES, CAE POETH.

"Su'dach chi, Mrs Jones?"

"Oh – ddim yn bad. Lle mae'r wnos 'ma 'di mynd d'udwch?"

Fel hyn y cychwynai bron pob ymweliad ar fore Sul. Mi fyddai'n edrych allan am fy nghar bach du yn dod yn ôl o'r capel ar fore Sul. Dyna pryd y byddai Mrs Jones yn rhoi'r tecell ymlaen ac yn paratoi panad.

Hyn oedd y patrwm am dros ddeuddeng mlynedd onibai fy mod wedi cael mynd i rywle am benwythnos neu hefo rhyw annwyl. Roedd y ddwy ohonom yn edrych ymlaen i gael rhoi'r byd yn ei le am rhyw hanner awr.

Dynes syml ei byw, tawel ei gweithred a syth ei dweud. Hi oedd brenhines y teulu. Ei theulu oedd ei phopeth. Ei theulu oedd ei phopeth ac fel y dywedai 'fasa nhw ddim yma heblaw amdana i'. Roeddynt hwythau yn gwybod hynny'n dda ac yn meddwl y byd ohoni, yn ei pharchu ac yn gwneud popeth i'w phlesio.

Fel y dywedodd y Parch. Deiniol Morgan yn ei hangladd 'Dyma wraig sydd wedi gweithio'n galed ar hyd ei hoes.' Bu'n glanhau yn Ysgol Brynrefail pan oedd ei diweddar wr, Mr. Rolant Jones, yn ofalwr yno. Dyma'r bobl oedd yn cymryd balchder mawr yn eu gwaith, dyma'r dyddiau roedd yn rhaid i ni'r plant dynnu ein esgidiau pan oeddem yn diosg ein cotiau, a gwisgo pypms tu mewn i'r ysgol newydd (ar y pryd). Gan fod fy mam innau yn un o'r tîm hwnnw, mae'r berthynas rhyngom yn mynd yn ôl i ganol y chwedegau.

Mae'n rhyfedd iawn nodi mai am Sadam Hussein, o bawb, yr oeddem yn siarad yn ystod ein sgwrs olaf. 'Be' ddaw ohono fo d'udwch?' Roedd hi'n bur siŵr beth fyddai ei dynged, ond 'doedd hi ddim yn leicio'r ffaith eu bod nhw wedi archwilio ei wallt a'i ddannedd o flaen camera a dangos hynny i'r byd a'r betws! Fyddai hi ddim yn swil o roi ei barn a 'doedd hi ddim yn meddwl fod hynny wedi bod y peth iawn i'w wneud.

Roedd hi'n hynod o galon feddal ac mi welais i sawl deigrin bach yn sgleinio yng nghornel ei llygaid ar wahanol adegau dros y blyneddau. Wna i ddim anghofio pan fu farw mam, ddeng mlynedd yn ôl bellach, mai Mrs. Jones oedd y cyntaf i ddod i'r drws i'm cysuro. Ac i'r drws cefn fyddai hi yn dod bob amser – achos mai dyna'r drws ar gyfer pobl sy'n agos ata chi!

Do, mae'r teulu bach yma wedi colli mam, mam yng nghyfraith, nain, hen nain a chwaer werthfawr ac annwyl iddynt. Buont yn garedig a gofalus ohoni ac fe roesant hwythau bleser a phwrpas yn ôl yn ei bywyd hithau.

Diolch am y ffrind o gael ei hadnabod, o'i chael yn ffrind ffyddlon a chymdogaes dda ac am yr oriau difyr yn ei chwmni.

Mair Huws, Glasgoed
LLONGYFARCHIADAU i Gwion Iwan ar ennill gradd 2(1) mewn Rheolaeth Gwesty yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd ac ar dderbyn prif wobwr yr adran am ei waith ymchwil ar y diwydiant twristiaeth yn yr ardal hon. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd yng ngwesty Marriott, Caerdydd.
DYMUNA Gwion ddiolch o galon i drigolion yr ardal am ei gynorthwyo gyda'i waith ymchwil drwy gwblhau'r holiaduron.

Atodiad BETHEL

Dymuna Shân Pollard, Monfa, Llanllyfni (Blaen Parc gynt) ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a gafodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

EISTEDDFOD. Cynhelir Noson Goffi, gan gynnwys stondinau a raffl, er budd Eisteddfod Bethel, yn y Neuadd Goffa, nos Wener, 10 Medi o 6.30 ymlaen. Yn ystod y noson bydd y Rhestr Testunau ar gael, ac hefyd bydd cyfle i bawb sydd â diddordeb, gyflwyno eu henwau i ymuno â'r amrywiol bartïon. Mynediad 50c – tocynnau ar gael gan aelodau'r Pwyllgor.

APEL EISTEDDFOD
GENEDLAETHOL ERYRI A'R
CYFFINIAU

Ar ran y pwyllgor diolchaf i bawb o'r ardal a gefnogodd yr apêl unigol a'r gwahanol weithgareddau. Gwnaed defnydd helaeth o'r cynllun addaliad cyfrannol (y ffurflen biws) ac erbyn hyn mae'r cyfanswm wedi croesi trothwy'r £2,000. Rwyf yn ymwybodol fod ambell 'fwlch' yn yr ardal ble na fu casglwyr o gwmpas. Os dymuna unrhyw un gyfrannu gallwch gysylltu â mi (670115), ac fe drefnir i alw draw.

Un agwedd bositif o'r gweithgareddau yw'r modd y denwyd pobl at ei gilydd – elfen bwysig mewn pentref ac ardal gyda phoblogaeth ieuanc a newidiol. Mae'r pwyllgor hefyd yn ymwybodol o lunio gweithgareddau sy'n draws-doriad o ddiddordebau, o ran anian ac oedran. Rhwir cryn sylw i'r elfen yma yn y cyfarfod nesaf fis Medi, fydd yn llunio rhaglen y gaeaf.

Mae cyfle hefyd i unrhyw gymdeithas/glwby yn yr ardal drefnu gweithgaredd.

Ar ran yr ardal llongyfarchiadau mawr i bawb o'r ardal a brofodd llwyddiant unigol/grwp draw yng Nghasnewydd. Yn enwedig, Carwyn John Morris am berfformiad gwyb yn cipio'r 'Llwyd o'r Bryn' ac i Alys Jones am greu nofel ar gyfer ieuencid.

Daeth yr uchel swydd i 'un o hogia Bethel', a llongyfarchiadau mawr i Selwyn Griffith, ar ei ethol yn Archdderwydd. Pa well ffordd i gefnogi Selwyn a'r Eisteddfod 'ar ei stepan drws' na gweithio'n galed i gefnogi'r apêl fel y gallwn godi'r 'cwmwl du ariannol' sy'n hofran uwch ein gŵyl hanfodol genedlaethol. Diolch i chwi am yr hyn a fu, ac rwy'n siŵr am yr hyn a ddaw.

DIOLCH. Dymuna Mair Jones, 13 Tan y Buarth, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion o fro'r Eco am yr holl gardiau, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen, Diolch yn fawr.

CYDYMDEIMLO. Dydd Iau, 15 Gorffennaf, yn 62 mlwydd oed bu farw David John Roberts, Darwin, Tan y Buarth. Mae ein cydymdeimlad dwysaf gyda Sheila, Lynn, Dafydd a'r teulu yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLO. Dydd Iau, 29 Gorffennaf, wedi cystudd hir bu farw Emlyn Hughes, Bethlyn, Tan y Ffordd. Mae ein cydymdeimlad dwysaf hefyd gyda Liz, Siân Emlyn a'r teulu yn eu profedigaeth hwythau. LLONGYFARCHIADAU i ti Sioned, Garth, 2 Glanllyn ar ennill gradd BSc (Anrhydedd) mewn Dieteg ac ar lwyddo yn yr arholiadau S.R.D. Gobeithio hefyd y byddi'n hapus iawn yn dy swydd newydd fel dietegydd yn Ysbyty Treforys,

Abertawe. Cariad mawr mam, dad, nain a taid a'r teulu i gyd.

LLONGYFARCHIADAU A DYMUNIADAU GORAU i'r Prifardd Selwyn Griffith ar ei ethol yn Archdderwydd. Braint ac anrhydedd fydd iddo gychwyn ar ei ddyletswyddau yn Eisteddfod Eryri 2005.

CLWB 100 Y NEUADD.

Enillwyr diweddar oedd:

MAI: Idris Morris, Y Fachell: £50; Dafydd Jones, Tan y Buarth: £25; Menna Williams, 24 Edward Street, Caernarfon: £10.

MEHEFIN: Miss A. Humphreys, Ty'n Rhos: £50; Menna Coles, Maes yr Haf: £25; J.E. Elis, Glennydd: £10.

LLONGYFARCHIADAU i holl ieuencid y pentref ar eu llwyddiant mewn gwahanol arholiadau dros yr haf. Dymunwn bob llwyddiant iddynt i gyd mewn addysg bellach ac mewn gwaith.

MERCHED Y WAWR. Daeth gweithgareddau'r flwyddyn i ben nos Fercher, 9 Mehefin, gydag ymweliad â set Rownd a Rownd ym Mhorthaethwy. Croesawyd yr aelodau gan Sue, un o Gyfarwyddwyr Gwmni'r Nant a Cliff, un o'r Cynhyrchwyr.

Cawsom gyfle i ymweld â rhai o gartrefi y cymeriadau yn y gyfres yn ogystal â'r siop, salon trin gwallt a'r caffi. Cafwyd eglurhad o'r gwaith sy'n mynd ymlaen cyn ac yn ystod y ffilmio a'r cofnodion manwl sy'n rhaid eu cadw o'r gwisgoedd a'r coluro a ddefnyddir gan yr actorion.

Diolchwyd i Cliff a Sue gan y Llywydd.

Aethom ymlaen i Fiwmares i'r Sailor's Return a mwynhau pryd o fwyd blasus.

Diolchodd y Llywydd i'r Swyddogion a'r Pwyllgor am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchwyd plant y pentref a'u hyfforddwyr ar eu llwyddiannau yn Eisteddfod yr Urdd. Hefyd Dewi Griffiths am ennill gradd mewn cerddoriaeth a chael y wobr o berfformiwr gorau'r flwyddyn. Dymunwyd yn dda i Non, merch Alys Jones ac i Mari, merch Beti Owen, fydd yn priodi yn y dyfodol agos. Anfonwyd cofion yr aelodau at Sheila Roberts a'i gŵr sydd yn yr ysbyty.

Enillydd y raffl oedd Rhian Hughes. Tynnwyd dyddiad Iwcus y dyddiadur a'r enillydd oedd Rita Williams.

Etholwyd swyddogion am y tymor 2004-2005. Llywydd: Rhian Hughes; Is-lywydd: Sian Davies; Ysgrifennydd: Deilwen Hughes; Is-ysgrifennydd: Alys Jones; Trysorydd: Mair Read; Is-drysorydd: Edwina Morris. Aelodau'r pwyllgor: Eryl Roberts, Eirlys Sharpe, Elizabeth Evans, Gwyneth Williams, Beti Owen, Nora Parry.

DIOLCH. Dymuna Liz a Siân Emlyn a'r teulu, Tan y Ffordd, ddiolch yn arw am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ddiweddar yn dilyn eu profedigaeth a gollu Mr Cemlyn Hughes, gŵr, tad a thaid annwyl ac arbennig iawn.

LLONGYFARCHIADAU i Anne a Geraint Elis, Cilgeran ar fod yn

nain a thaid unwaith eto, gyda genedigaeth Sioned, merch i Angharad ac Anthony, chwaer i Siôn.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Carwyn John, Perthi ar ennill Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn, prif gystadleuaeth Llefaru yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd.

DYMUNA Sheila, Lynn, Dafydd, Rhys ac Elen ddioch o galon i'w cymdogion a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn marwolaeth David John. Casglwyd dros £1,000 er cof amdano ar gyfer Ward Cybi, Ysbyty Gwynedd.

CLWB BRO BETHEL. I orffen y tymor penderfynwyd ar Daith Ddirgel yn cychwyn o Fethel am 10.00 y bore gan feddwl mynd i Fiwmares, ond gan nad oedd y tywydd yn ffafriol penderfynwyd mynd am Holland Arms i gael paned am rhyw awr. Wedyn ymlaen â ni a chyrraedd y Bull ym Mhentraeth i gael cinio. Roedd y bwyd yn ardderchog a phawb wedi mwynhau. Wedyn cychwyn ar ein taith i farchnad Llangeftni, ond ar ôl cyrraedd roedd y gwynt yn gryf a'r glaw yn tywallt a phenderfynwyd mynd am Pringles, o dan do, wedyn roedd pawb yn hapus yn cyrraedd adref i'r glaw trwm. Hoffai Nerys ddiolch i'r aelodau am y

gefnogaeth a gafodd am dair blynedd fel ysgrifennydd yn cydweithio hefo'r trysorydd, Alice Jones.

Bydd y clwb yn aildddechrau ddydd Mawrth, 7 Medi yn Festri Bethel. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno. Rydym yn glwb hapus iawn.

DIOLCH. Dymuna Gwenno a Brian, Cefn Elan ddiolch i bawb am y cardiau, yr anrhegion a'r arian a gawsant ar enedigaeth Llinos Haf, chwaer fach i Iestyn Rees.

DATHLU PRIODAS AUR. Llongyfarchiadau i Hugh a Maud Williams, Deulyn, ar ddathlu eu Priodas Aur ar 14 Awst.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon
Ceunant (650799)

DYMUNA Evan a Helen Parry a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth annisgwyl o goli brawd annwyl, Glyn Meirion Jones, Caerfryn, Llanrug, ac yn ddiweddar o Blas Pengwaith, Llanberis.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Siân a Graham Land, Marvsta, ar eu priodas ar 14 Awst. Pob hwyl a hapusrwydd i'r dyfodol.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Bu trip dirgel blynyddol y gangen nos Lun Gorffennaf 12fed, wedi ei drefnu gan Pat Jones a Carol Houston. Cafwyd cyfle i ymweld â'r Ganolfan Grefftai yn y pentref, sef yr adeilad newydd sydd wedi ei leoli ar safle yr hen Ysgol Sir. Yn dilyn croesawyd yr aelodau i Gweledfa, cartref Dafydd a Moira Ellis. Yno cafodd pawb gyfle i werthfawrogi campweithiau crefftus Moira sef enghreifftiau niferus o'i gwaith 'Paentio ag edau', sydd yn harddu muriau ystafelloedd y cartref ac yna tro i'r gerddi trefnus a lliwgar i ryfeddu at ddawn arbennig Dafydd. I ddiweddu'r noson mwynhawyd lluniaeth yn Y Bedol ym Methel.

Ar Orffennaf 24ain bu aelodau'r gangen, ar y cyd â Changen Beddgelert, yn darparu arlwyfaeth i'r ras boblogaidd, Ras yr Wyddfa, fel rhan o'r Prosiect Sialens

Cymunedol Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched. Gwnaed elw o dros ddwy fil o bunnau, a fydd yn mynd tuag at gynorthwyo Ysgol Pendalar, Caernarfon, i sefydlu yr Ardd Synhwyrdd Dan-do, fel rhan o gynllun yr ysgol newydd.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD Y GYMDEITHAS. Cynhelir cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Festri nos Iau, Medi 9fed, am 7 o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd Mr Huw P. Huws, Bethel.

OEDFAON MEDI

5: Parch Dafydd Hughes, Caernarfon am 5.30
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd;

12: Mr Robert M. Morris, Penygroes am 5.30;

19: Mr Norman Closs Parry, Treffynnon am 10.00;

26: Parch Ddr. Alwyn Roberts, Tregarth am 10.00.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
benslynnwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Llwybrau Llanddeiniolen a Chlwt-y-Bont

Pe baech eisiau mynd o Glwt-y-Bont i Ddinorwig neu'r pentrefi cyfagos heddiw mi fydddech yn debyg o fynd mewn car neu fws. Bu pethau'n wahanol iawn ers talwm. Nid oedd 'na bron ddim ceir, ac ychydig iawn o fysiau, ac mi fyddai'n rhaid i bawb gerdded i bobman. Er hynny, yr oedd yn bosib iddynt arbed amser ac ymdrech trwy ddefyddio'r llwybrau oedd yn mynd i bob cyfeiriad.

Ym mis Mehefin eleni mi euthum efo Margaret Roberts, fy nghyfnither, a Jane Foulkes, 'Neuadd Cynon', i geisio cerdded o Tŷ Sinc i 'Gors Merddyn'. Yn fuan iawn yr oedd yn rhaid i ni stopio yn sydyn, am fod llwybr yr Incleir wedi ei gau gan ordyfiant trwchus. Nid oedd llwybrau'r llan fel hyn pan oeddwn i'n blentyn. Hyd at 1942 bu fy nhaid John H Williams Bryn Terrace yn eu trwsio a'u clirio, er mwyn eu cadw ar agor.

Ganwyd ef yn Rhyd-ddu yn 1879, priododd ag Elin Ann, un o ferched Harri Huws, ac yn y man ymgartrefodd yng Nghlwt-y-Bont. Yn 1911 fe'i codwyd yn flaenor yng Nghapel Disgwyllfa. Ac fel y gweddai i flaenor, yr oedd yn ddyn cydwybodol a threfnus. Cofnododd fanylion o'i waith beunyddiol mewn llyfr sy gen i hyd heddiw. Efallai ei fod o ddiddordeb i rai o ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* i weld rhai o'r nodiadau a wnaeth John Williams, er mwyn galw i gof sawl llwybr oedd yn Llanddeiniolen yn y cyfnod hwnnw.

Yn y llun o Swyddogion Capel Disgwyllfa 1922, gwelir John H. Williams a'i frawd yng nghyfraith, Methuselah Williams, yn y rhes gefn. Gwelir hefyd gopi o'i lyfr nodiadau ac enwau rhai o lwybrau'r fro.

WYNN DAVIES



Swyddogion Capel Disgwyllfa 1922

(o'r cefn i'r dde): Mr Methuselah H. Hughes; Mr William J. Roberts; Mr John H. Williams; Mr John Williams; Mr T.D. Williams; Mr Henry D. Thomas; Parch W. Griffith, M.A.; Mr Thomas W. Thomas.



Joan Rees Edwards gyda'i chwpan - 'Victrix Ludorum.'

Allt Riwth, Pontrhythallt. 18/8/04.

Diddorol iawn oedd erthygl Ifan Wyn Williams, Rhosmeirch am y chwareuon yn hen ysgol (go iawn) Brynreall pan oedd fy rhieni yn ddisgyblion.

Yn y cyfnod hwnnw enillodd fy mam y *Victrix Ludorum* bedair gwaith yn olynol. Yr oedd hi mewn ymarferbad oyson, yn llamu fel ewig tros y oreigiau yn ôl a blaen i Ddinorwig yn ddyddiol... Parodd record ei naid uchel am 77 mlynedd. Glanio ar ddaear galed hefyd. Nodweddiadol o'r amseroedd.

Uchod. Joan Rees Edwards gyda'i chwpan yn ei ymarferbad yn Dinorwig. 1942.

Joan Rees Williams

Dyddiadur Gwaith

John H. Williams Medi 1935

- 2: Ffordd Caeau Uchaf
 - 3: Ffordd Caeau Uchaf
 - 4: Ffordd y Ffridd Uchaf
 - 5: Llwybr y Ffridd i Lôn Pen y Bont
 - 6: Llwybr Clytiau Teg
 - 7: Bwlch Cae Mawr
 - 9: Llwybr Ysgol Tan y Coed i Craig y Dinas
 - 10: Llwybr Chwarel Goch
 - 11: Llwybr Cae Goronwy i Pen y Bryn
 - 12: Llwybr Tŷ Newydd i Ffordd Penrallt
 - 13: Ffordd Penrallt
 - 14: Muriau Gwynion i Llyn Penrallt
- 12 Days (8/6 £5:2:0 (cyflog

pythefnos) Gweithiai 6 diwrnod yr wythnos.

Am y pythefnos wedyn dim ond £1:5:6 a enillodd gan iddo gofnodi:

'Aros gartref am yr wythnos yma i fod ar fy nhraed nos gyda'm brawd (yng nghyfraith) Meth. H. Hughes.'

Medi 25 oedd diwrnod yr angladd.

Yr wythnos ddilynol bu'n gwneud pont newydd, gosod giât newydd a thrwsio llwybr Cefn Bangor. Yna glanhodd llwybrau King's Head a'r Quarry a chododd ochrau a chario gwyneb newydd ar Lwybr Carreg y Garth, Rhiwlas. Bu yn angladd O. W. Jones ar y 10fed o Hydref a cholli hanner diwrnod arall o dâl.

Medi 1935		Medi 1935	
1	1/2	1	1/2
2	1/2	2	1/2
3	1/2	3	1/2
4	1/2	4	1/2
5	1/2	5	1/2
6	1/2	6	1/2
7	1/2	7	1/2
8	1/2	8	1/2
9	1/2	9	1/2
10	1/2	10	1/2
11	1/2	11	1/2
12	1/2	12	1/2
13	1/2	13	1/2
14	1/2	14	1/2
15	1/2	15	1/2
16	1/2	16	1/2
17	1/2	17	1/2
18	1/2	18	1/2
19	1/2	19	1/2
20	1/2	20	1/2
21	1/2	21	1/2
22	1/2	22	1/2
23	1/2	23	1/2
24	1/2	24	1/2
25	1/2	25	1/2
26	1/2	26	1/2
27	1/2	27	1/2
28	1/2	28	1/2
29	1/2	29	1/2
30	1/2	30	1/2
31	1/2	31	1/2

Tudalen allan o ddyddiadur gwaith John H. Williams am Fedi 1935.

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMYAK

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

Ar Gau
Sul a Mercher

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

PEN-BLWYDD MAWR.

Llongyfarchiadau i Glyn Evans, Llwyn Alice a Garej Gwalia ar ei ben-blwydd yn 80 oed. Pwy oedd y dyn ifanc a ddaeth i Gaeathro 25 mlynedd yn ôl?

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn Y Ganolfan, Waunfawr ar 15 Gorffennaf. Roedd y Cynghorydd Clive James yn bresennol a chyfetholwyd Vera Roberts i'r sedd wag yn Ward Caeathro.

Yn achos y caniatâd cynllunio ar gyfer Fferm Abwyd, Hen Stofa, Pen Cefn, nid oedd yr ymgeisydd wedi creu'r fynedfa yn unol â'r caniatâd cynllunio, er bod cerbydau yn ymweld â'r safle.

Gan nad oedd cynnydd, na'r chwarteisi i ateb llythyrau, ynglŷn â'r ceisiadau i dawelu traffig; torri'r gordyfiant dros y pafin rhwng Y Bwthyn ac Eryl; ail-wynebu'r briffordd; codi arwydd enw lôn 'Hen Gapel'; sgubo'r ffordd i Gaernarfon yn drylwyr na thaclo'r tipio slei yng nghanol y pentref, penderfynwyd cwyno unwaith eto i'r Prif Weithredwr, Arweinydd a Chadeirydd Cyngor Gwynedd.

Nid oedd gwrthwynebiad i geisiadau cynllunio am estyniad i Bryn Eden a chodi 'folly' ym Mhenrhos.

Rhoddodd Cyngor Gwynedd ganiatâd cynllunio i fodurdy ger Homes. Ni chaniatodd y Cynulliad yr apêl ar gae Pwll y Bar.

Disgwylir i Gyngor Gwynedd sicrhau fod y gordyfiant o dir rhif 1, Bryn y Gof yn cael ei dorri ac i berchennog y tir ailagor y llwybr cyhoeddus i gerddwyr trwy Dyddyn Whisgin.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Gorffennaf oedd: £40 (31) Bryn a Dilys Griffiths, Delfryn; £25: (15) Mark Sykes, Penlôn; £15: (01) Dafydd Iwan, Rhosbach; £5: (47) Norman Davies, 7 Tai Glangwna.

Trwy gefnogaeth parhaol yr hapchwaraewyr roedd y Pwyllgor yn medru darparu Miri Haf heb gost i'r plant na'u rhieni. Roedd Mici'r Clown yn atyniad mawr. Diolch i Gwenllian Daniel a Sarah Tilley am ddarparu'r lluniaeth.

DYCHWELYD ADREF. Flwyddyn union yn ôl aeth Seimon Hughes, Cefn Gwern a dau ffrind, Bob a Iolo, i weld dipyn ar y byd. Buont yn crwydro ac yn gweithio yma ac acw ar eu taith a bu Seimon yn dreifio bws mini yn Brisbane am gyfnod. Buont hefyd mewn priodas yn Thailand, gan fod cyfnithr Bob yn priodi gyda gŵr o'r wlad. 'Diwrnod i'w gofio,' meddai Seimon 'a phawb mor gyfeillgar a chroesawus.' Ar eu taith ymwelodd yr hogia â Thailand, Malaysia, Indonesia, Cambodia, Vietnam a Laos cyn treulio cryn amser yn Awstralia.

Treuliodd yr hogia eu diwrnod Nadolig yn Bondi Beach ond 'doedd y twri ddim cystal â chinio Dolig adre,' meddai Seimon. Cawsant amser bandigedig a chyfle i weld llawer o bethau diddorol iawn. Erbyn hyn maent wedi cyrraedd adref yn ddiogel.

CLWB Y MERCHED. Yn ystod mis Mehefin gafwyd taith gerdded dan arweiniad Deiniol Hughes ac aeth criw o'r merched i gerdded llwybrau Caeathro.

Cafwyd cipolwg ar Prysgol, cartref hynafol William Owen, yr emynydd enwog, sydd wedi ei gladdu ym mynwent y pentref. Gorffennwyd y noson gyda lluniaeth ysgafn wedi ei ddarparu gan Mr a Mrs Alan Griffith, Tafarn Bryn Gwna.

Swyddogion y clwb y tymor nesaf fydd: Cadeirydd: Carey Jones; Ysgrifennydd: Gwenno Bebb a'r Trysorydd: Bethan Iwan. Diolch i'r rhai wnaeth y gwaith yma eleni, sef Marian Hughes, Rhiannon Roberts a Vera Roberts.

Bydd y Clwb yn ailgychwyn y tymor nesaf ar nos lau, 23 Medi, am 8 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb, gobeithio y gwelwn wynebaw newydd eto eleni.

YSBYTY. Da gweld fod Mrs Jeannie Owen, 1 Erw Wen, yn gwella ar cael triniaeth yn yr ysbyty.

Treuliodd Mrs Doris Mulhenfeld, 9 Glan Gwna, gyfnod yn yr ysbyty hefyd. Mae hi adref erbyn hyn a gobeithio y bydd yn gwella yn fuan iawn.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Dathlodd Mrs Doris Griffith ben-blwydd arbennig iawn yn ystod mis Awst. Llongyfarchiadau mawr Dilys.

PENRHOS. Croesawyd Mrs Anne Stayle a Mrs Rachel Martin, dwy or-wyres Syr William Henry Preece, yn gynnes gan Llŷr Roberts, y perchennog newydd. Mwynhaodd y ddwy a'u teuluoedd aros yn yr hen gartref teuluol gan gannol a gwerthfawrogi safon y ddarpariaeth yno yn fawr iawn. 'Rydym yn hynod o falch fod bachgen lleol wedi prynu'r lle, wedi cadw cymeriad y tŷ gan ei wneud mor chwaethus a chysurus, a'i fod ar agor i'r cyhoedd,' medden nhw. 'Yn sicr, edrychwn ymlaen at ddod i aros yma yn fuan erto.'

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Disgwylir y canlynol ym mis Medi:
5: 11.00 Ysgol Sul;
2.00 Parch Iorwerth Joones Owen;
12: 11.00 Ysgol Sul;
19: 11.00 Ysgol Sul;
2.00 Parch Gwenda Richards;
26: 11.00 Ysgol Sul.

Croeso i bawb i Ysgol Sul y plant ac i'r oedfaon.

DOSBARTHU'R ECO. Mae Aled a Jill Thomas, Llwyn Onn, Stad Glandwr, wedi gwirfoddoli i gydlyn dosbarthu'r Eco trwy'r fro o fis Medi ymlaen. Bydd Bethan Iwan yn gyfrifol am Rosbach a gwerthiant trwy'r Garej a Vera Roberts am Stad Bro Wen. Diolch i Marian Huws am ei llafur dros y blynyddoedd.

O'R DAFARN I'R TERAS. Ar ôl cyfnod fel landlordiaid Tafarn Bryngwna, mae Sue ac Alan Griffiths a'r teulu wedi gadael y dafarn ac wedi dychwelyd i'w cartref yn Nhaf Glangwna. Diwedd cyfnod arall yn hanes hir tafarn y pentref.

PEN-BLWYDDI O BWYS.

Llongyfarchiadau i Aled Jones, 3 Bryn y Gof, ar ei ben-blwydd a chyrraedd oed yr addewid. Llongyfarchiadau hefyd i Alicia Davies, Plas Glanyrafon ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

HEN NAIN. Mae Sarah Tilley yn awyddus i glywed oddi wrth unrhyw un sy'n gwybod hanes ei hen nain.

Ganwyd hi, Catrin Jones, ar fferm ger Caeathro rhywbryd rhwng 1820 ac 1830. Roedd ganddi fab anghyfreithlon, John, a drigodd gyda'i Nain a'i Daid. Priododd Catrin â dyn hefo'r cyfenw Jones ac roedd ganddynt dair merch - Nel, Jinny a Bessie. Gweithiodd ei gŵr, tad y tair merch, yn Chwarel Dorothea. Bu Jinny yn trigo yn y tŷ bach llechi ar y chwith cyn dod at y Cob, Porthmadog. Bydd Gwenllian Daniel, Y Bwthyn yn pasio unrhyw wybodaeth ymlaen.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Awst oedd: £40: (104) Alwyn a Nia Jones, Y Dderwen, Rhosbach; £25: (21) Arwel Evans, 8 Tai Glangwna; £15: (98) Vernon Jones, Llaidd Meddygon; £5: (32) Mrs Moore, Eryl.

CYFARFOD BLYNYDDOL. Bydd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Cae Chwarae yn cael ei gynnal am 8.00 o'r gloch nos Lun, 20 Medi, yn Nhafarn Bryngwna. Un eitem ar y rhaglen fydd trafod cynnal Cinio Nadolig i'r Pensiynwyr yng Nghanolfan y Capel a pheidio dosbarthu swm o arian i bob pensiynwr(wraig). Cofiwch ddod i leisio eich barn.

PENCAMPWRIAETH RHEDEG MYNYDD Y BYD. Llongyfarchion i Jayne Lloyd, Tyddyn Cae, am gael ei dewis fel aelod o dîm Cymru yn y ras uchel yn yr Eidal ym mis Medi.

TAFARN BRYNGWNA. Tenantiaid newydd Tafarn Bryngwna ers canol mis Awst yw Gareth a Steffan Bowen. Croeso mawr, yn arbennig i Gareth, sy'n ymuno â'i dad yn y fenter. Cofiwch eu cefnogi - am ddiod, pryd o fwyd a chwmni da.

OCSIWN ADDEWIDION. Er mwyn codi arian ar gyfer Apêl Canolfan y Capel, bydd Ocsiwn Addewidion yn cael ei chynnal am 7.30 yr hwyr nos Wener, 1 Hydref ym Mhenrhos.

GATIAU AR WERTH. Mae'r ddwy giât a fu'n fynedfa i'r gorlan o amgylch offer chwarae'r plant, ger y cae pêl-droed ar y Cae Chwarae, ar werth. Gellir eu prynu am £15 yr un neu £25 am y ddau. Cysylltwch ag Alun Roberts, 10 Erw Wen.

PWYLLGOR CODI ARIAN. Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Codi Arian at gostau adnewyddu'r Ganolfan am 8.00 o'r gloch nos lau, 2 Medi yn y Ganolfan. Croeso i bawb - mae rhaid codi arian o hyd.

Arddangosfa'r 'Chwarelwyr' gan Gwilym Williams

I griw y garreg sy'n segur
- rhoi gwefr
wna'r gyfrol o gysur.
Llwyfan i ddawn eu llafar
Yn y paent mae blachder pur.
R.L.J.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati.


Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch 01286 672076

i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt.

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

DEINIOLLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

Glyn Gruffudd, 3 Stad Hafod, fydd yn gofalu fod dosbarthwyr Deiniolenn yn derbyn yr Eco bob mis o hyn ymlaen. Diolch iddo am ei barodrydd i wneud y gwaith.

BORE COFFI. Bore Sadwrn, 14 Awst trefnodd Cyngor Eglwys Deiniolenn a'r Cylch fore coffi yn festr Ebeneser er budd Cronfa Mark Ward. Gwnaed elw o £830 a diolchir i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd. Dymunwn fel ardalwyr wellhad llwyr i Mark o'i anafiadau.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH. Cyfarfu'r ymddiriedolwyr ar 9 Awst. Derbyniwyd pedwar cais am gymorth a dyfarnwyd cyfraniadau gwerth £1,350 fel a ganlyn:

Clwb Snwcer	£150
Eisteddfod Gwaun Gynfi	£200
Merched y Wawr	£200
Y Seindorf	£800

DYMUNIADAU DA. Anfonwn ein cofion at bawb yn y pentref sydd heb fod yn dda. Brysiwch wella! CYDYMDEIMLWN â'r rhai a gafodd brofedigaeth yn ystod yr haf a dymunwn bob cysur iddynt yn eu hiraeth.

LLONGYFARCHIADAU i holl blant a phobl ifanc y pentref a lwyddodd yn eu arholiadau mewn ysgol a choleg.

MERCHED Y WAWR. Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor newydd yn Nhŷ Elidir am 7 o'r gloch nos Lun, 20 Medi. Cawn ein diddor gan Manon, Medi a Malan Wilkinson, Caernarfon. Croeso cynnes i aelodau han a newydd.

CYMDEITHAS EGLWYS LLANDINORWIG.

Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor yn yr Eglwys nos Lun, 6 Medi. Ceir sgwrs gan Mrs Sarah Morris Jones, Treborth. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH. Dymuna Mrs Laura Evans a theulu'r diweddar Alun Wyn Evans, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn dilyn eu profedigaeth o golli Alun. Dymunant ddiolch hefyd i'r holl staff meddygol am eu gwaith diflino yn ystod y cyfnod anodd hwn.

IEUAN ROWLANDS. Cynhaliwyd gêm bêl-droed ar gae'r Bwthyn yn ddiweddar er mwyn codi arian ar gyfer Ieuan Rowlands, un o gyn-chwaraewyr tîm y pentref sy'n dioddef o salwch ar hyn o bryd. Daeth nifer o gyn-chwaraewyr timau llwyddiannus y 90au i'r gêm,

ac er bod gwallt ambell un wedi teneuo, a bol un neu ddau wedi twchu, cafwyd gêm hynod o ddifyr a orffennodd yn gyfartal, 2-2. Llwyddwyd i godi £2,166 i leuan a dymuna'r Clwb Bêl-droed ddiolch i bawb a gyfrannodd wob'r i'r raffl, i'r rhai a roddodd o'u hamser i drefnu'r gêm ac i helpu ar y diwrnod, ac i bawb a gyfrannodd mor hael i wneud diwrnod hynod o lwyddiannus.

DIOLCH. Dymuna Cissie Rowlands, Corlan-y-Bont, ddiolch yn ddiffuant i'w theulu, cymdogion a ffrindiau pell ac agos am yr ymweliadau a'r galwadau ffôn tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch o galon.

DYMUNA Mrs Mona Parry, 13 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNA Nancy a Windsor o 10 Rhes Marian ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am eu cardiau ac anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu arhosiad yn Ysbyty Gwynedd, Manceinion a Glan Clwyd, ac ar ôl dod adref. Diolch i chi i gyd am fod mor ffyddlon i ni. Ein diolch hefyd i Feddygon a Staff Clinic Deiniolenn a Llanberis.

ABSEILIO: Yn ddiweddar cymerodd Jennifer Jones, Hafan, Porth y Gogledd, ran mewn Abseilio Noddedig er mwyn codi arian at elusen y Sunrise Fund. sy'n gofalu am blant ac oedolion difreintiedig ar Lannau Merswy. Roedd rhaid wrth wisg ffansi ar gyfer yr achlysur, a mentrodd Jennifer abseilio wedi ei gwisgo mewn wisg buwch! Ac er nad yw'n hoff o uchder o gwbl: llwyddodd Jennifer i gwblhau'r dasg ac abseilio i lawr adeilad uchel aml-lawr, a chodi £254 at yr achos. Ond er hynny, fydd hi ddim yn rhuthro i wneud y peth eto. 'Mae crogi wrth raff 150 troedfedd uwchben y ddaear yn eitha brawychus,' meddai. 'Roeddwn i'n ofni fy mod am daro'n erbyn un o'r ffenestri. Doeddwn i ddim yn gwybod lle roeddwn i am ryw ddeng munud wedyn. Fedrwn i ddim symud o gwbl.'

Llongyfarchiadau mawr iddi ar ei champ.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Kevin a Denise, 2 Bro Elidir ar enedigaeth eu mab bach, Iwan. Dymuniadau gorau i'r dyfodol a boed ichwi gael nerth ac iechyd i fagu'r bychan. Pob bendith.

WEDI BOD YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall i Mr Andrew Griffith, Tan y Bwlch, cyn y gwyliau orfod mynd i Ysbyty Gwynedd ond erbyn hyn y mae adref ac yn gwella yn araf deg. Brysiwch wella Andrew, mae pawb yn eich colli yn yr ardal.

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod Mrs Betty Bower, Tan y Marian, wedi gorfod mynd i Ysbyty Gobowen. Gobeithio y bydd yn gwella ac y cawn ei gweld adref yn fuan ac yn teimlo yn well. Brysiwch wella.

PROFEDIGAETH. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyrat â Mrs Eileen Davies, 10 Bro Elidir, a'r plant, Gareth, Valmai, Gwyneth a'r teulu oll yn eu profedigaeth drist o golli priod, tad a thaid annwyl iawn iddynt. Bu farw Mr Gwilym Davies yn Ysbyty Gwynedd ar ôl bod yn cwyno ers peth amser. Yr oedd Mr Davies yn un o blant yr ardal ac fe fydd colled fawr ar ei ôl. Boed ichwi fel teulu gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma, a gobeithio y cewch iechyd i'r dyfodol. Pob bendith arnoch fel teulu.

CWLB ORWIG. Mwynhaodd aelodau y clwb ginio arbennig ar 15 Mehefin yng Nghanolfan Blue Peris. Trefnwyd y wled gan Betty Bower, a diolchwyd iddi ar ran yr aelodau gan Alice Griffith. Cyflwynwyd gwobrau'r raffl gan Joan Glass a Betty Bower. Yr enillwyr oedd Megan Morris, Sally Brennan ac Elizabeth Jones. Cyflwynwyd rhodd i Andrew ac Alice Griffith ar achlysur dathlu 57fed pen-blwydd eu priodas. Llongyfarchwyd y Llywydd a'i briod, John a Rose Cantrell, a ddigwyddai ddathlu pen-blwydd eu priodas hwythau yr un diwrnod.

Cafwyd newyddion calonogol pan dderbyniwyd caniatâd cynllunio i godi cofeb yn yr Allt Ddu i goffáu chwarelwyr a laddwyd yn y chwarel.

Llongyfarchwyd Betty Bower ar

ennill gwobr yng nghystadleuaeth Gerddi Bywyd Gwylt Eryri mewn seremoni ym Mhortmeirion. Dywedodd Anna Williams, swyddog y gystadleuaeth fod y beirniaid wedi eu plesio'n fawr gyda'r ardd brydferth yn Nhan y Marian.

CLUDO'R ECO O Dŷ i Dŷ

Yn ystod mis Gorffennaf daeth y newydd trist fod Mr Andrew Griffith yn bwriadu rhoi y swydd o gludo'r Eco o dŷ i dŷ i fyny, ar ôl bod wrthi ers cychwyn yr Eco. Mae wedi galw dros dri chant o weithiau bron ym mhob tŷ yn y pentref yma - dipyn o record mi gredaf. Daeth y rhifyn cyntaf o'r Eco allan yn Chwefror 1976 am y pris o 8 geiniog, ac yn gyfrifol am hel newyddion yr ardal i'r Eco yr adeg honno oedd y diweddar Robert Williams, 4 Tai Caradog, Deiniolenn.

Y cwestiwn yn dilyn y newyddion oedd 'Pwy a gawn i wneud y gwaith yn ei le?' Ond yr ydym wedi bod yn hynod o ffodus gan fod Myfi Evans wedi gwirfoddoli i gario ymlaen â'r gwaith. Diolch o waelod calon iti, Myfi.

Cymeraf ar y cyfle yma i ddiolch o galon i Andrew am wneud y gwaith yn ddi-dor am yr holl amser, ac yr wyf yn sicr fod yr ardal i gyd yn ddiolchgar iawn iddo. Fe fyddwn yn sicr yn colli y cellwair a'r wên, ond diolch iddo am ei wneud am gymaint o amser. Diolch yn fawr i chi a gobeithio y cewch iechyd i fwynhau eich seibiant ac yr wyf yn siŵr y gwnaiff Myfi lenwi y bwlch yn rhagorol iawn.

Mawr ddiolch ichwi eich dau am y gwaith da.

DYMUNIADAU GORAU. Yr wyf ar ddeall fod yna rai yn cwyno yn yr ardal. Anfonaf ein cofion atynt, a dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt.

Dymunwn yn dda hefyd i'r rhai sydd yn disgwyl canlyniad arholiadau, rhai fydd yn mynd i'r colegau, rhai fydd yn newid ysgol a rhai fydd yn cychwyn am y tro cyntaf i'r ysgol.

Dymuniadau gorau a phob lwc ichwi i gyd.

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffôn: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill



Jones

Contractwyr Trydan

Goleuadau Argyfwng ac offer Larwm Tân

Gwasanaeth i Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan Eisteddfod yr Udd a'r Cenedlaethol



Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYMUNED. Bydd croeso cynnes iawn i'r newydd-ddyfodiadaid eleni a phob dymuniad da i'r rhai sy'n cychwyn yn Ysgol Brynrefail.

SIOEAU. Llongyfarchiadau brwd i'r rhai fu'n llwyddiannus yn yr amrywiol sioeau gyda'u hadar a'u hanifeiliaid. Gŵyr pawb am gefnogaeth y pentref hwn i'r sioeau hyn a braf oedd gweld Cenin, Winllan, yn anwes ei 'Welsh Hill Speckled Face' yn y Sioe Fawr yn Llanellwedd ac yn cipio'r wobr gyntaf. Go dda wir.

TRIP YSGOL SUL BOSRA AC EGLWYS SANTES HELEN.

Dymunir diolch i Elizabeth Jones ac Ann Paterson am drefnu'r trip a'r tywydd bendigedig ar 3 Gorffennaf. Cafodd llond dau fws amser arbennig yn Southport. Diolch o galon.

YSGOL SUL BOSRA. Bu'n fis prysur i'r aelodau a'r athrawon. Cymerwyd rhan mewn dwy Gymanfa, a diolchir i'r plant am wneud eu gwaith mor dda, fel arfer.

Aeth nifer o'r aelodau i fwynhau Sbrîr Ysgolion Sul yn Ysgol Brynrefail ar 10 Gorffennaf, o 1.30 hyd 4.00. Fe wnaeth pawb fwynhau anerchiad amserol Huw John Huws, y dawnsio, y storïau, y gemau a'r canu. Diolchir i'r rhai fu'n gwneud y trefniadau. Edrychir ymlaen am gyfarfod â'n gilydd eto yn 2005.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn y Sul wedi i'r ysgol ddechrau. Croeso cynnes i aelodau newydd.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Llongyfarchiadau i Urien Deiniol, 12 Bryn Eglwys, ar gyrraedd 18 oed ar 24 Gorffennaf. Pob dymuniad da i ti, Urien, yn y Coleg.

Pob bendith a llongyfarchiadau hefyd i Rhys, Cae Corniog Bach, yntau yn dathlu eu ben-blwydd yn 18 oed ar 12 Awst. Pob dymuniad da i tithau i'r dyfodol.

DIOLCH. Dymuna Urien Deiniol ddiolch yn ddiffuant i'w rieni a'i deulu ei ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed. Diolch o galon.

PROFEDIGAETHAU. Bu Awst a Gorffennaf yn fisoedd o golled a thristwch i sawl teulu yn y pentref. Ein cydymdeimlad dyfnaf ag Avril a Geraint Williams, Careb, a'r teulu oll yn eu tristwch o golli chwaer annwyl i Avril, sef Nerys Wynne, a hynny ar 20 Gorffennaf.

Vn dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, bu farw Thora White, Bryn Mair. Ein cydymdeimlad llwyrfa â'r cysylltiadau oll.

Ar 1 Awst, yng nghwmni oi theulu a'i ffrindiau, yn ei chartref yn Plas yn Betws, bu farw Olive Jones, merch annwyl Mrs Elen Williams a'r diweddar Harri Williams, 2 Bryntirion, a chwaer addfwyn Alwyn a Delyth, Pongaer. Derbyntol y teulu oll ein cydymdeimlad llwyrfa.

Ar 2 Awst, yn dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, yn 91 mlwydd oed o 11 Llys y Gwynt, a chynt o Glyn Arthur, bu farw Mrs

Betty Evans. Estynnir ein cydymdeimlad llwyrfa â'r teulu a'r rhai fu'n ofalus ohoni dros y blynyddoedd.

Ar 3 Awst, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ar ôl brwydr ddewr, bu farw Mrs Joyce Jones, Y Garn, Llanrug, priod ffyddlon Islwyn, mam annwyl Beth a'i chworydd Wena a Nest, a modryb annwyl i Marina Jones, Tai Arthur, Waen. Anfonir ein cydymdeimlad llwyrfa at y teulu oll yn eu colled lem.

Fore Llun, 9 Awst, rhoddwyd y Parchedig Dennis Green i orffwys ym mynwent Eglwys Santes Helen. Boed i Aled ac Ifor Green, cefndryd, a'r teulu oll wybod ein bod yn meddwl amdanoch.

Cydymdeimlir yn ddwfn â Susan a Stephen Roberts, 18 Bryn Tirion, a'r teulu oll yn eu colled fawr o'u baban bychan, Alaw Haf.

Rydym yn meddwl amdanoch i gyd fel teuluoedd yn eich galar.

Teyrnged i Betty Evans, Llys y Gwynt

Anti Ifans oedd Betty Eleanor Evans i ni erioed, a hynny ers y diwrnod cyntaf y daeth hi i'n cyfarch ni i'n cartref newydd yn Nhawelfa, 33 mlynedd yn ôl. Wedi hynny fe fabwysiodd Anti Ifans ni fel petasan ni'n deulu iddi.

Roedd gan Anti Ifans gariad mawr tuag at ei theulu, yn enwedig ei mam a'i thada, a meddwl mawr o'i gŵr, Yncl Davy. Roedd ei chariad a'i ffydd at Iesu Grist a Duw yn ddiffuant. Byddai'n siarad yn aml am ei hoffter tuag at ei chyfeillion.

Dwi'n credu mai o'r sylfaeni cryfion yma roedd ei hunan barch yn dwad. Byddai Anti Ifans yn bwyta'n iach ac yn cadw'n iach 'Gormod o ddim nid yw'n dda,' fyddai'n ei ddweud. Mae'r ffaith ei bod wedi byw i oed mawr yn dystiolaeth ei bod wedi parchu ei bodolaeth. Yn ogystal, roedd gan Anti Ifans bersonoliaeth gref, oedd yn ei galluogi i ddweud ei meddwl, ac i sefyll dros gyfiawnder.

Roedd Anti Ifans bob amser yn gofalu amdanom ni fel plant. Pan fo babi yn cael ei eni yn y teulu mi fyddai hi'n rhoi tair ceiniog wen yn ei ddwrn ar y ffordd adra o'r ysbyty, er mwyn sicrhau ei fod o'n cael lwc dda am oes.

Mi fyddai Anti Ifans bob amser yn rhoi croeso mawr i ni yn ei chartref. Roedd 'na bob tro baned a rhywbeth i'w fwyta yn cael ei gynnig, a byddai hi wrth ei bodd yn gwneud 'cup o' tea' i'r rhai bach – yn enwedig i'm brawd, Iwan, a'm niith Elin Mair. Mae nhw wedi treulio oriau maith yn cael 'cup o' tea' efo Anti Ifans.

Dros baned byddai Anti Ifans wrth ei bodd yn sôn am y dyddiau pan oedd hi'n gweini yn Llundain, Banbury Cross a Chastell Penrhyn. Roedd ganddi straeon hapus o'i phlentynod ym Mryselencyn ac yn Ninorwig.

Byddai Anti Ifans yn gofalu am ein datblygiad moesol ni hefyd. Cyn i fi fynd i ffwrdd oddi cartref, i'r coleg neu am antur i wlad bell, fe fyddai'n gofyn wrthaf fi, 'Sgin ti Feibil i fynd efo chi,' ac yna 'Gofia ddarllen dy Feibl.'

Gofalai Anti Ifans am greaduriaid bychain hefyd. Dwi'n siŵr fod llawer ohonoch chi, fel finna, wedi mwynhau gwyllo'r adar bach drwy ffenest ei thŷ yn Llys y Gwynt, yn bwydo ar y briwsion yr oedd hi yn eu rhoi allan iddyn nhw'n feunyddiol. Ac yn wir, roedd Anti Ifans yn rhoi lle mor dda yn Glyn Arthur i un o'n cathod ni fel ei bod hi'n treulio mwy o amser efo Anti Ifans nag oedd hi efo ni, yn Nhawelfa.

Hoffwn ddiolch i staff Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, ac i Mrs Paul a staff Cartref Nyrsio Penisarwaun am eu gofal tuag at Anti Ifans yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r gofaluwr cymdeithasol am eu cymorth dros y blynyddoedd.

Diolch arbennig i Myfanwy Parry am ei gofal a'i charedigrwydd tuag at Anti Ifans dros y blynyddoedd. Cofiw'n hefyd am gyfeillgarwch a charedigrwydd y ddiweddar Mary Elliott.

Rydau ni wedi cael ein 'cup o' tea' olaf efo Anti Ifans, ond fe fydd fyw o hyd, yn y traddodiadau y mae hi wedi basio i lawr i ni, yn ein hatgofion ac yn ein calonau.

GWENLLIAN PARRY,
Tawelfa (gynt)

PWYLLGOR NEUADD BENTREF
Tynnwyd Raffl Gorffennaf ac Awst mewn pwyllgor ar 5.7.04. Yr enillwyr oedd:

Gorffennaf: 1. Kevin Jones, Cae Corniog Bach; 2. Eifion Harding, Winllan; 3. Catrin Glyn, Erw Gain, Llanrug.

Awst: 1. N. Williams, 15 Bryntirion; 2. Ann Parry, Rhos Wian; 3. Philip Jones, 8 Bryntirion.

Y mae llyfrau Raffl Fawr ar werth gan aelodau'r pwyllgor – gyda gwobrau sylweddol. Fe'i tynnir mewn Noson Gymdeithasol yn y Neuadd Gymuned ar 16 Rhagfyr. Erfynnir am eich haelioni arferol gyda'r gweithgaredd hwn. PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU 2005.

Erbyn 4 Gorffennaf derbyniwyd 57 o amlenni yn ôl yn cynnwys rhoddion haelionus dros ben.

Manteisiodd nifer ar y cynllun ad-daliad treth incwm. Golygodd hyn swm sylweddol yn ychwanegol tuag at darged y pentref. Y mae'r Apêl yn agored o hyd – er ein bod eisoes wedi cyrraedd y nod. Ein bwriad yw casglu cymaint ag a allwn er budd yr Eisteddfod. Felly, os oes rhai ohonoch yn dymuno cyfrannu anfonwch ef i'r Trysorydd, Leslie Larsen, Llygad yr Haul neu aelod o'r pwyllgor a fu'n rhannu'r llythyrau a'r amlenni.

Bydd stondin ar ddiwrnod y Carnifal gyda'r elw yn mynd at ein targed – ar Sadwrn, 11 Medi.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL GASNEWYDD. Bu'n 'Steddfod heulog a llwyddiannus i nifer yng Nghasnewydd. Tywynnodd yr haul yn boeth braf a bu lwyddiannau i nifer o'r pentref hwn a'r Fro.

Llongyfarchiadau i Anest Elfion, Winllan, ar ddod yn ail hefo'i Dawnsio Gwerin Unigol ac i Cenin a Judith am ddod yn drydydd hefo Dawnsiwr Caernarfon.

Pob cled i Eurgain Haf (Sycharth) ar gipio'r ail wobwr am ysgrifennu Drama Agored.

Ein dymuniadau gorau i Mr Selwyn Griffith, 6 Bryn Eglwys, ar ei ethol yn Archdderwydd am y tair blynedd nesaf. Dymunir tymor llwyddiannus iddo. Da ei glywed yn

dweud mewn cylchgrawn wythnosol mai 'dros yr Eisteddfodau bach y mae'n sefyll, ac mor bwysig yw gwneud yn siŵr bod y sawl sy'n cael eu gwobrwyo yn cofio'r diwrnod hwnnw am byth'. Yn sicr bydd croeso mawr i chwi yn ein Eisteddfod Bentref yn y misoedd nesaf – y tro cyntaf i Archdderwydd fod yn bresennol, mae'n siŵr.

PWYLLGOR EISTEDDFOD BENTREF, 30 MEDI. Cynhelir Noson Goffi yn y Neuadd Gymuned am 6.30 yh. Bydd Rhaglen a Thestunau'r Eisteddfod ar gael.

EISTEDDFOD BENTREF.

Cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymuned nos Wener, 12 Tachwedd i gychwyn am 6.00 yh

POB LWC. Llongyfarchiadau mawr i bawb ohonoch fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau yn ystod yr haf. Pob dymuniad da i chwi yn eich swyddi newydd, yn y colegau ac yn y chweched dosbarth. Rydym oll yn falch o'ch llwyddiannau.

CARNIFAL

Gŵyl Flodau ac Arddangosfa Medi 8–11. Buasai Janet Ash (Ffôn 871265) a Gwen Roberts (871407) yn hynod ddiolchgar o gael menthyg lluniau ar gyfer yr uchod. Lluniau digwyddiadau pentref, hen dai, siopau sydd wedi newid, priodasau yn yr Eglwys neu'r Capeli, enillwyr mewn sioeau, eisteddfodau neu garnifal.

Os dymuna unrhyw un addurno ffenestr yn yr Eglwys neu gyflwyno rhodd o flodau er cof am rywun neu ryweth arbennig, rhochw wybod cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda.

Nos Lun, 6 Medi

Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 7 o'r gloch.

Dydd Iau–Sul, 9–12 Medi

Gŵyl Flodau ac Arddangosfa yn yr Eglwys.

Bore Iau, 9 Medi.

Gwasanaethir y Cymun Bendigaidd am 10 o'r gloch i agor yr Wyl. Bydd yr Eglwys ar agor o 2–6 o'r gloch. Oriau agor

Dydd Gwener, 10 Medi o 2–7 o'r gloch; Sadwrn: 4–6 o'r gloch; Sul: 2–3 o'r gloch. Thema yr holl arddangosfeydd eleni yw 'Coffadwriaeth Hen a Newydd'.

Nos Wener, 10 Medi.

Helfa Drysor yn cychwyn o Neuadd yr Eglwys am 6 o'r gloch ac yn diweddu mewn gwesty am fwyd.

Sadwrn, 11 Medi.

Y Carnifal i gychwyn o'r Cartref Nyrsio am 1.30 o'r gloch gyda Seindorf Arian Deiniolen. Bydd stondinau, siop, tombola, raffl, gemau a nifer o bethau eraill yn cynnwys Sêl Gist Car – £3 y car/bwrdd. Bydd stondin Cŵn Poeth. Gobeithir cael cystadleuaeth 'Tug o War'.

Yr arweinydd fydd Arwel Jones, Cae Eboni a'r beirniaid eleni yw Dafydd a Manon Dafys.

Mercher, 15 Medi

Cynhelir Mabolgampau i bob oedran ar gae yr Ysgol Gymuned am 6 o'r gloch.

Nos Iau, 16 Medi.

Dawnsio Salsa yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 o'r gloch.

Nos Wener, 17 Medi.

'Gig' yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis am 8 o'r gloch gydag Epitaff a bandiau eraill.

Nos Fawrth, 21 Medi.

Gyrfa Chwist Arbennig yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 o'r gloch.

Nos Iau, 23 Medi.

Noson Cwis yng Nglyntwrog am 9 o'r gloch.

Nos Wener, 24 Medi

Disgo yn Neuadd yr Eglwys am 7 o'r gloch.

Nos Sul, 26 Medi

I gloi y bwrwm, cynhelir Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen am 7 o'r gloch. Yr arweinydd fydd Mr Arwel Jones a'r Organydd fydd Gareth Jones, Llanberis, gydag eitemau gan Gôr Meibion Peris a Chôr yr Ysgol Gymuned.

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r amrywiol weithgareddau ac i gymryd rhan a mwynhau.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod am y tro olaf yn Neuadd yr Eglwys nos Fercher, 25 Awst am 7 o'r gloch. Fe werthfawrogi unrhyw rodd, gwobrau, rhoddion ariannol neu gymorth gyda'r gwahanol weithgareddau.

Dewch yn llw i fwynhau'r bwrwm, gan obeithio y cawn dywydd teg.


PLYGU'R ECO.

Plygir y rhifyn nesaf o'r Eco yma ym Mhenisrwaun yn Neuadd yr Eglwys nos Iau, 30 Medi.

Tybed a fuasai rhywun yn barod i gymryd y baich o nôl yr Eco o Wasg Gwynedd, cyn 4.30 o'r gloch. Cysyllter â Dafydd Ifans (872407).

Gofynnir yn garedig am bob cymorth. Fel arfer byddwn wedi gorffen plygu cyn 8 o'r gloch. Edrychir ymlaen i weld wynebau newydd i helpu'r criw bychan ffyddlon. Diolch yn fawr.

**Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun**



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

Tlws yr Eco 2004

Y grŷfied gyffredinol yw fod y gystadleuaeth yn mynd o nerth i nerth, ac eleni rhwng y pêl-droed a'r Îlbel-rwyd, cymerodd dros 300 o ieuenctid ran, heb unrhyw fath o ddrwgdeimlad, dim ond llond trol o gystadlu iach ac egniol. Yr oedd yr arbrawf o gael noson ar wahân i'r pêl-droed dan 7 yn llwyddiant, a diolch i'r llu cefnogwyr a ddaeth i gefnogi yng ngwir ystyr y gair ar gyfer pob noson.

Llongyfarchiadau arbennig i'r sawl fu'n gyfrifol am droi

Y FAWNOG RYDD yn adnodd gwych i ieuenctid pentref Llanrug. Yr oedd yn lleoliad gwych i'r cystadlaethau dan 7 a dan 9, a chadernid Eryri yn gefndir gwych i'r ymdrechion. Yn yr un modd diolch i bwyllgor Clwb Bethel am groesawu y gystadleuaeth dan 11. Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr sy'n cynnal y gystadleuaeth bêl-rwyd pob blwyddyn - heb sôn am Robin a chriwiau y gwahanol 'siopau'. Diolch arbennig i'r sawl a baratodd y nionod ar gyfer y cŵn poeth!

Fel llynedd, cafwyd dyfarnu penigamp gan Siôn Jones ac Aled Williams o Ysgol Brynrefail ac hefyd Chris Jones (Cambs). Rwy'n clywed fod plant Llanrug wedi bedyddio Chris yn 'Colina' wedi ei berfformiadau yn y Tlws!

Yn y gystadleuaeth bêl-droed dan 7, timau Llanrug 'A' a 'B' oedd yn herio ei gilydd yn y rownd gynderfynol. Yr 'A' aeth a hi o 2-0, ac felly gwynebu Bethel, a gurodd Waunfawr 1-0 wedi gêm galed a chyffrous iawn. Mewn gêm derfynol hynod o agos, Llanrug aeth a hi o 1-0, a'r sgoriwr oedd Rhun Williams, yn sicr seren y gystadleuaeth.

Yn y gystadleuaeth dan 9, dau dim Bethel oedd yn herio'i gilydd yn un 'semi' a Llanrug Coch yn herio Waunfawr yn llall. 1-0 i Fethel 'A' ond am gêm yn y semi arall!

Dim gôl wedi 25 munud o chwarae. Dim modd gwahanu ar giciau cornel. Yna gwneud y cac yn llai, a Tomos Williams yn rhwydo i Lanrug. Yna tipyn o ffeinal.

Tomos Williams yn rhoi Llanrug ar y blaen ond dwy gôl gan Guto Rhys a Daniel Siôn yn gyrru'r tlws i Fethel. Agos oedd hi eto yn yr oedran dan 11. Tipyn o semi

rhwng Bethel 'B' a Deiniolen, a tipyn o sioc oedd i'r tîm cartref ennill drwy unig gôl Nathan Price. Roedd rhaid dibynnu ar reol y 'gôl euraid' gan Luke Bartlett i roddi buddugoliaeth i Fethel 'A' dros Waunfawr.

O gofio bod blwyddyn o wahaniaeth yn yr oedran, brwydrodd tîm 'B' Bethel yn wych cyn colli drwy unig gôl Daniel Bell. Bethel felly yn cipio dau dlws allan o dri, ond fe fydd cryn her i'w hamddiffyn y flwyddyn nesaf.

Roedd cwmni teledu Cwmni Da yn ffilmio a chyfweld nifer o'r chwaraewyr ar gyfer y gyfres ar bêl-droed a ddangosir yn ystod slot Planed Plant ym mis Medi. Rhoddwyd cyfraniad ariannol tuag at yr Eco ganddynt, a defnyddiwyd yr arian i brynu tair

Llanrug Coch ail dan 9.

cwpan newydd ar gyfer yr oeddrannau. Roedd cryn falchder yn wynebâu'r capteiniaid wrth godi'r tlysau newydd am y tro cyntaf.

Yn y gystadleuaeth bêl-rwyd aeth y medalau aur yn y ddau oedran i Ysgol Llanrug. Llongyfarchiadau iddynt. Fe ddaw y flwyddyn nesaf mewn dim a chyfnod arall o Igyffro. Cymeraf y cyfle yma i longyfarch rhai a gymerodd ran yn y Tlws a fu'n aelodau o garfannau 'Academi dan 9 oed' clwb Dinas Bangor, a fu'n fuddugol yn 'Nhwrnament Ian Rush' yn Aberystwyth.



Bethel a Llanrug dan 7.



Bethel dan 9.



• Priodasau • Dathliadau

• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau

• Pwyllgorau • Bwydlen Bar

• Cinio Dydd Sul



**Quality Hotel
Llanberis**

(Gwesty'r Fictoria gynt)

- rhan o CHOICE HOTELS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

**Silver
STAR**

GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y CLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Nos Fawrth 17eg o Awst 2004 am 7.00 o'r gloch.

Cynghorwyr Cyngor Cymuned Llanrug yw Meryl Green; Delyth Hughes; Goronwy Hughes; Avril Jones; Brian Jones; Derfel Jones; Geraint Jones; Cyng Eryl W Thomas; Delyth Ross; Cyng Arwel Thomas (Caddeirydd); Dafydd W Thomas (Is-Gadeirydd); Delyth Tomos; Clifford Williams. Croesawyd y Cyng Avril Jones i'w chyfarfod cyntaf.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol yn rhai cywir.

Materion yn codi:

Canolfan Bysgotwyr, Crawia – Nodwyd cynnwys y llythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd a phenderfynwyd beidio ag ymateb nes bydd sylw wedi ei dderbyn gan yr Ombudsman. Parc Sglefrio, Cwm y Glo – Penderfynwyd disgwyl beth fydd ymateb Cyngor Gwynedd i gais sydd wedi cael ei wneud i osod ffens haearn ar y palmant ger y fynedfa, cyn penderfynu beth i'w wneud gyda'r ffens.

Elusen Dr Morris – Adroddodd Cyng Goronwy Hughes ei fod wedi mynychu cyfarfod o'r Elusen yn ddiweddar. Bydd yr Elusen yn penderfynu ar grantiau yn hwyrach yn y flwyddyn o hyn ymlaen. Penderfynwyd gofyn am gopi o'r cyfansoddiad a cheisio sicrhau cyhoeddusrwydd i'r Elusen.

Ceisiadau am gymorth – Penderfynwyd gohirio unrhyw benderfyniadau nes bydd y Cyngor yn gwybod beth fydd costau'r gwelliannau yn y fynwent. Fynwent – Cytunwyd y dylid arddangos poster yn y fynwent yn atgoffa teuluoedd o'u cyfrifoldeb i sicrhau fod y garreg fedd yn ddiogel.

Grant Gwella Gwynedd – Adroddodd Cyng Arwel Thomas fod cais cynllunio wedi cael ei wneud a byddai wedi cyfrifo y gost yn fanylach erbyn y cyfarfod nesaf.

Llochesi Bws – Gohirwyd gwneud penderfyniad ar symud llochesi bws Ffordd Llanberis nes bydd y pris llawn o'i symud wedi cael ei dderbyn. Cytunwyd i wneud cais yswiriant ar gyfer y difrod i lochesi bws Ffordd yr Orsaf.

Llwybr Cyhoeddus Rhif 83 (Cae Rhydu) – Nodwyd bod yr eiddo ar y farchnad a mynegwyd siom nad yw mater y llwybr cyhoeddus wedi ei ddatrys. Trafodwyd y sefyllfa unwaith eto a chytunwyd yn unfrydol na fyddai'r Cyngor Cymuned yn tynnu eu gwrthwynebiad i'r gwyriad yn ôl.

Llwybr Cyhoeddus 75 (Glanffynnon) – Nodwyd bod ysbwriel o bob math yn cael ei adael ar y tir ac yn y ffos sydd yn rhedeg gyfochr â'r llwybr, gyda'r ffos bellach wedi cau i fyny. Mynegwyd pryder y bydd y llwybr yn gorlifo os na fydd y ffos yn rhedeg yn glir. Penderfynwyd trefnu cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd ar y safle er mwyn datrys y sefyllfa.

Caeau Chwarae – Mynegwyd pryder cyffredinol ynglŷn â'r nifer o bobl sydd yn defnyddio caeau chwarae y gymuned i gerdded eu cŵn a gadael y baw ci heb ei godi. Penderfynwyd drafftio llythyr ar gyfer y cyfarfod nesaf gyda'r bwriad yn gyntaf o'i ddosbarthu ymysg trigolion sy'n byw o gwmpas y caeau chwarae. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i ganfod pa gymorth sydd ar gael ganddynt hwy. Sedd Wag – Nodwyd bod un sedd wag ar y Cyngor a phenderfynwyd gwneud apêl yn yr Eco i unrhyw un sydd â diddordeb mewn llenwi'r sedd wag gysylltu â'r Clerc am ragor o wybodaeth.


Cyfarfod nesaf o'r Cyngor 21 Medi am 7 o'r gloch yn Ysgol Gynradd Cwm y Glo. Clerc: Bethan Owen, Tyddyn Prior, Waunfawr. Ffôn 650 770

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith dâ bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhos Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

Fframia Gwasanaeth Fframio Llundiau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

**IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Anghen rhai Newydd? os felly

☎ FFONIWCH ☎

(01286) 650247 neu **(07780) 811617** (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: **(01286) 872501**

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870840**

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: **(01286) 870202**

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



website: www.a-v-w.co.uk



Car neu Fan
Petrol neu Dïael
Carb. neu Gwistrellied

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car




YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



CROESAIR MEDI



1 ar draws ydi pob un o'r geiriau sydd heb gliwiau iddynt.

Noder - 24 ar draws (1,3)

30 i lawr (1,4)

34 i lawr (3,4)

Ar Draws:

7. Llinyn 15 i lawr? (4)

11. Daeth ychydig ynghynt na 4 i lawr (3)

12. Cymal canol y goes (4)

13. Anifail amryliw y corau meibion? (4)

14. Cysgod o wiail yn yr adeilad! (3)

16. Yr hyn a achosodd 11 ar draws i droi'n 4 i lawr (4)

18. Diddymu i ledi anrhefn? (5)

19. Gwybed sydd, er gwaetha'r enw, yn dew o wleda ar waed yr adeg yma o'r flwyddyn! (6)

22. Llun o gerrig wal abrwysg! (7)

23. Nid adyn meddw, ond un sy'n rhoi'r gyfraith mewn grym! (4)

26. Pwff o wynt yn rhoi nerth ychwanegol i'r rhedwr (3)

27. Clod anniben - lol! (4)

29. Y wats yn torri yn ddisymwth! (4)

30. Yn y fan hon - yn sgwrsio gyda'i gydymaith (3)

33. Prysglwyn? Ynteu efelychiad o brysglwyn? (4)

36. Enllib ar y grid? (7)

38. A'i y rhain sy'n cnoi y cocos? (6)

39. Mae'n adlewyrchu goleuni ar ôl iddi 16 ar draws (5)

40. Planhigyn aroglus yn y siop flêr (4)

44. Tad y llofrudd cyntaf un (3)

45. Ar ddi-hun, ac yn wyliadwrus (4)

46. Rhediad hylif (4)

47. Pleidlais (3)

48. Sawdur (4)

49. Ysbrydoliaeth farddonol yn rhoi llawenydd i'r bardd (4)

50. Bydd rhywun yn digio pan godi'r y blywyn hwn (7)

I Lawr:

1. Hen iaith Rhufain (5)

2. Rhywbeth wedi ei wau yn hanes Dafydd y Garreg Wen? (3)

3. Cyfran benodol o fwyd (4)

4. Y cyfnod tywyll diwchaf! (7)

6. Yr hyn a gynhyrchir gan 43 i lawr (4)

8. Gofyniad taer (7)

9. Un sy'n cymysgu toes (7)

10. Llinellau mewn nodiant cerddorol (5)

15. Rhoi tôn arni oedd dymuniad olaf Dafydd! (5)

17. Lamas digrif, digrif! (5)

20. Gofalu yn y de am fodur y dyn o Gaernarfon? (5)

21. Anifail mawr gwryw o gwmpas y fferm (4)

25. Mynd a gwirioni am y llwynog! (5)

28. Offeryn cerdd i'w daro â darn o bren! (4)

31. Hen fyddin yng Nghaernarfon (3)

32. Defnydd gwyn o ddŵr y môr (5)

33. Mewn cytgord (7)

36. ar unwaith! (7)

37. i anfon un o'r rhain? (5)

41. Pwddin mewn pot enfawr (5)

42. Arswyd (4)

43. y ffilm hon gan Hitchcock! (4)

Daeth atebion i groesair mis Gorffennaf i law erbyn y dyddiad cau gan Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Jennie Williams, Clynog; Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Rhiw; D.B. Williams ac Eluned Jones, Trefor; Olwen Owen, Moreen Lennon, Nan Owen ac A. Hughes, Llanberis; Ceridwen Williams ac Eirian Roberts, Llanrug; Nansi Davies, Rhuthun; Gareth Oliver, Trecarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; H.O. Hughes, Pwllheli; N. Hughes, Gwmyglo;

E.E. Jones, Rhoshirwaun; Gwen Griffith, Deiniolen; Megan Morris, Dinorwig; Elfed Evans, Llanllechid; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen ac Alvona Jones, Prestatyn.

Ymdrech Mrs. Ellen Pritchard, Ty'n Caeau, Garndolbenmaen, LL51 9UJ ddaeth allan o'r het, felly £5 a llongyfarchiadau i chi.

Ar ôl cwblhau y croesair, anfonwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, LL55 3HE erbyn 20 Medi.



RHODDION

£10: Nancy a Windsor Williams, 10 Rhes Marian, Deiniolen; Delyth, Mair, Carys ac Aled er cof am Selyf; Mair Jones, 13 Tan y Buarth, Bethel; Di-enw; Y Prifardd Selwyn Griffith, Penisarwaun; Evan a Helen Parry a'r teulu er cof am Glyn Meirion Jones; Gwion Iwan, Llanrug; Goronwy a Mair Jones, Cilan, Tan y Cae, Bethel.

£5: Mrs Mona Parry, 13 Hafod Olau, Deiniolen; Teulu 2 Maes Eilian, Dinorwig; Cissie Rowlands, Corlan-y-bont, Deiniolen; Menna Jones, 6 Stryd y Ffynnon, Llanberis; Manon Awst, Pencarnisiog, Ynys Môn; Teulu 9 Bryn Golau, Waunfawr; Bob a Norah, 14 Dôl Elidir, Llanberis; Clwb Bro Bethel; Gwenno a Brian, Cefn Elan, Llanrug.

£4: Olive Thomas, Tyddyn Drain, Llanddaniel.

£3: Selwyn a Betty Roberts, Meifod, Llanrug; Shân Pollard, Monfa, Llanllyfni.

R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tunnell diggers bychain ac excavators 360° newyddda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerdidi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwylliau oll-gynhwysol

CHWARAEON

Mwy o Atgofion

Braf i unrhyw ohebydd chwaraeon yw cael ymateb, ac yn dilyn cyfraniad Ifan Williams, llythyr a ddaeth oddi wrth yr hen ffrind Cecil Jones o Gonwy. Yn ei lythyr mae Cecil yn cyfeirio at y llyfr *Hanes yr Ysgol Sir ym Mrynrefail, Arfon* a gyhoeddwyd yn enw 'Dosbarth Addysg Llanberis a'r Cylch' yn 1940. Awdur y llyfr oedd y Parch John Pritchard MA, BD. Beth sydd yn y llyfr yw atgofion un o'r disgyblion cyntaf yn yr ysgol, sef Mr W.J. Roberts, BA, Yr Wyddgrug, ond o Lanberis yn wreiddiol. Mae Cecil yn holi a oes unrhyw hanes amdano i'w gael, neu ddisgynyddion yn yr 'hen ardal'? Gan fod yr ysgol, y 'Llanberis District County School', wedi ei hagor ym Medi 1900, sôn mac W.J. am dymor chwaraeon 1900-01.

Dyfynaf ran o'r bennod sy'n ymwneud â thymor cyntaf o bêl-droed yn yr ysgol newydd.

'Yr oedd tîm pêl-droed yn barod i fyned i'r maes ymhen ychydig ddyddiau o agor yr ysgol, petai maes ar gael i fyned iddo. Wedi ei argyhoeddi mai amhosib fuasai troi'r llain tir o flaen yr ysgol yn faes addas, sicrhodd yr athrawon a'r llywodraethwyr gae gyda'r gorau a welwyd erioed.' (Ni enwir y cae). 'Wedi cael cae a phêl yr oedd gennym dîm a chwaraeai fel un gŵr. Y capten cyntaf oedd Evan Hugh Jones' (y meddyg poblogaidd o Gaernarfon wedi hynny) 'a minnau yn ysgrifennydd. Y broblem nesaf oedd sut i gael arian i dalu treuliau teithio'r tîm i chwarae yn erbyn ysgolion eraill.' (hen broblem!) 'Un noswaith, yn lle rhoi fy amser i waith cartref lluniais llythyr at nifer o garedigion yr ysgol yn apelio am gymorth. Yr oedd y llythyr i brofi'n effeithiol a llifodd yr arian i mewn a sefydlu cronfa gref.

Yn erbyn y Fam Ysgol byddai'r ornest galetaf, a theimlem yn fwy dedwydd o guro bechgyn Caernarfon na churo neb arall.' (Rwy'n siŵr fod hyn yn wir i ni fechgyn Ysgol Dyffryn Ogwen yn y 60'au hefyd, blc rodd gan y Cofis dimau cryf iawn). 'Mentraf ddywedyd, heb ymffroet, na fu cystal tîm yn Ysgol Llanberis na'r tîm cyntaf yma yn ei hanes. Chwaraeai yn erbyn Ysgol Friars, a pur gyfartal fyddai'r gemau rhyngom. Diwrnod mawr y flwyddyn fyddai sin hymwelid i herio Ysgol Llangefni. Cychwyn gyda'r trên gyntaf o Lanberis, a dychwelyd gyda'r trên olaf gyda'r hwy, yn ddicithriad yn fuddugoliaethus. Un tro yr oedd un chwaraewr yn fyr, ond fel hyn y darllonai'r telegram yn ffencatr

siop Mr Moses Ingram, Llanberis y noson honno.

Llanberis C.S. 4, Llangefni 1. Played 10 men.

Un tro roedd amheuaeth parthed Johnny Hughes, Snowdon View. Nid oedd ei rieni yn fodlon iddo chwarae oddi cartref am ryw reswm. A'r trên ar gychwyn, pwy redai ar hyd y platform â'i wynt yn ei ddwrn â'i ddillad chwarae yn ei fag ysgol ond Johnny. Trowyd ein galar yn llawenydd. Yr oedd ein tîm mor enwog fel y derbyniwyd sialens i chwarae yn erbyn ail dîm Llanberis ar gae Padarn Villa.

Brynrefail C.S. 7, Llanberis Res 2

Y cam nesaf oedd herio tîm cyntaf Llanberis ar gae'r ysgol, a thrigolion yr ardal wedi tyrru i'r gêm. Ond yr oedd Llanberis yn rhy gryf i ni. Maddeuer i mi, ni chofiaf y sgôr!

(Fe orffenir yr ysgrif gyda'r paragraff gwyh yma)

'Medrwn ysgrifennu cyfrolau am y bêl-droed, ond ni chofiaf fawr ddim am yr hoci. Ac am y criced, trucus i'r cithaf ydoedd. Prawf o hynny yw hyn, awdur yr ysgrif hon a ddewiswyd yn gapten un haf, ac ni wyddai sut i ddal y bat na thaflu'r bêl.'

Unwaith eto, diolch i Ces am ei gyfraniad, ac hefyd y diweddar W.J. wrth reswm. Y mae Ces wedi gaddo cyfrannu mwy am ei gyfnod o yn yr ysgol o 1955-60. Edrychwn ymlaen, ac hefyd unrhyw gyfraniad arall wrth reswm.

Apêl am Chwaraewyr

Mae clwb ieuenctid Bethel wedi ffurfio tîm pêl-droed dan 17 oed eleni i gystadlu yng Nghynghrair Môn. Bydd y gemau yn dechrau ganol Medi, ac eisoes mae'r nosweithiau ymarfer wedi cychwyn ar faes Coed Bolyn. Maent yn cyfarfod ar nos Lun am 6.30pm.

Fe allai'r tîm wneud gyda mwy o chwaraewyr i gael carfan ddigonol ar gyfer y tymor. Os oes gan unrhyw chwaraewr ieuanc ddiddordeb, gellir cysylltu â Maldwyn Hughes (07866 856566). Dymunwn yn dda iddynt gan bod yr oedran yma yn hanfodol yn gyswllt rhwng y timau iau a'r tîm hyn, ac yn naturiol i feithrin chwaraewyr lleol.

Rygbi Iau

Mae sesiynau hyfforddiant ac ymarfer Rygbi Iau yng Nghaernarfon wedi aildechrau. Cynhelir sesiynau ar gyfer hogia a gcnod y blynyddoedd 2 i 6 rhwng 6 a 7 o'r gloch ar nos Wener.

Ar gyfer hogia blynyddoedd 7 i 11, mae sesiynau ar nos Fawrth, rhwng 6 a 7.30 o'r gloch.

Bydd y sesiynau ar Gaeau'r Morfa, gcr Ysbyty Eryri, o dan nawdd Clwb Rygbi Caernarfon. Croeso i aelodau hen a newydd.

Tlws yr Eco...



Rhun yn codi tlws yr Eco.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Tlws yr Eco dros yr haf - ac fe gafwyd diwrnod llwyddiannus iawn. Am yr holl luniau, yr hanes ac i ddarganfod pwy fu'n fuddugol, trowch i dudalen 17.

Newid Sianel - Cadw Iaith

Ie, ar sianel y lloeren y byddwn yn gwyllo gemau pêl-droed rhyngwladol Cymru yn y dyfodol agos. Sicrhawyd cytundeb ariannol sylweddol, gyda'r abwyd naturiol o'r gemau yn erbyn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gobeithio bydd chwyddo'r coffrau yn sefydlu sylfaen gadarn i 'wreiddiau'r' gêm, a rhoddi cefnogaeth ariannol a theledol i'n Cynghrair Genedlaethol.

Canmoliaeth arbennig i'r aelodau o'r Gymdeithas a fynnodd fod sylwebaeth Gymraeg ar gael. Roedd hyn yn hanfodol ar sawl lefel, a bydd yn gaffaeliad mawr i'r llu o Gymru alltud. Gobeithio bydd Bryn Thomas ac Iwan Roberts yn gweithio ar y grefft, oherwydd byd o gymharu yw'r byd teledu. Gwaith cartref ar y termau Iwan,

ond diolch am naturioldeb y sylwebaeth.

Cafwyd perfformiad i'w ganmol ar y maes, mewn gêm 'gyfeillgar' mwy corfforol nag arfer. Oherwydd natur ein chwaraewyr rydym yn fwy cartrefol mewn gêm o'r fath.

Efallai fod gwendid yng nghanol yr amddiffyn, a braf fuasai gweld rhywun o safon Southall rhwng y pŷst. Nid felly i fyny'r cae, gyda chryfder Hartson a chyflymdra Bellamy yn creu partneriaeth effeithiol iawn. Nid hawdd yw trechu Cymru ar hyn o bryd.

Edrychwn ymlaen i aeaf diddorol o gcfnogi Cymru - ar y maes neu'r teledu - yn y Gymraeg.

Cymru!
Cymru!

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff